

ECO'R WYDDFA

RHIF 59

MAI 1981

Pris 15c

POB HWYL YN Y GENEDLAETHOL



Côr Ysgol Dolbadarn Llanberis fydd yn teithio i Gastell Newydd Emlyn ym mis Mai i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Yn y llun gwelir y gwpan a roddir i'r Adran fwyaf llwyddiannus yn yr Eisteddfod Sir.



Dyma aelodau partion Unsain a Cherdd Dant Ysgol Dolbadarn fydd hefyd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni, yn dilyn eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Sir.



Llongyfarchiadau hefyd i Anthony Marston o'r Waunfawr ar lwyddo i gyrraedd y Genedlaethol. Bydd Anthony yn cystadlu ar yr unawd chwythbren rhwng 12 a 15 oed.

PEIDIWCH AG ANGHOFIO

CYFARFOD CYFFREDINOL ECO'R WYDDFA

yng Nghanolfan
Gymdeithasol Cwm-y-Glo
Nos Fawrth, Mai 5ed.
am 7 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb sydd a
diddordeb yn yr Eco



PENCAMPWYR GOGLEDD CYMRU

Llongyfarchiadau a phob hwyl i hogia cry' Dinorwig. Cefn, o'r chwith i'r dde: Cemlyn Thmas, Len Jones, Martin Wood. Blaen: Carwyn Thomas a Bryn Jones. Trowch i'r dudalen ôl am eu stori.

ETHOLIADAU'R CYNGOR SIR

Dydd Iau, Mai 7fed yw'r dyddiad pryd y byddwn ni yn cael y cyfle i ddewis ein cynrychiolwyr ar Gyngor Sir Gwynedd. Isod mae lluniau'r ymgeiswyr am seddau'r gwahanol wardiau ym mro'r Eco.

GWYRFAI 3 - Bethel, Llanddeiniolen, Rhiwlas a'r Felinheli.



Y Parch Richard Jones, Y Ficerdy, Y Felinheli. (Annibynnol).



Mr W.O. Jones, Arfoel, Stryd Bangor, Y Felinheli (Annibynnol).

GWYRFAI 4. Betws Garmon, Waunfawr, Ceunant, Caeathro, Bontnewydd Pontrug.



Mr. Henry Owen, Hillburn, Bontnewydd. (Annibynnol).



Mr. Eurig Wyn, Y Frenni, Waunfawr. (Plaid Cymru).

GWYRFAI 5. Brynrefail, Clwt y Bont, Deiniolen, Dinorwig, Llanrug, Penisarwaun.



Mrs Pat Larsen, Llygad yr Haul, Penisarwaun. (Plaid Cymru).



Mr Norman Pritchard, The Poplars, Llanrug. (Llafur).

ECO'R WYDDFA

Rhif 59
MAI 1981

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside|Thomas, Brony Nant, Pont-
rhythallt, Llanrug, (Caernarfon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwy, Pen-
isarwaun. (Penylllyn 438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
(Llanberis 220)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669).

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 550)

DEINIOLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 267)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, Penisarwaun.

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn, (Waunfawr 626).

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar

28 MAI

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
erbyn 20 MAI
os gwelwch yn dda.

Llythyrâu

POB NERTH I'CH YMDRECHION

Annwyl Olygydd,
Fel cyn-Gadeirydd yr Antur Bro
gyntaf yng ngwledydd Prydain,
rwy'n hynod o falch o weld
bod'na symudiad gan Gyngor
Cymuned Llanrug i ychwanegu
at y nifer o anturiaethau yn y
Gymru wledig.

Pob nerth ichwi ac Antur
Llanberis yn eich ymdrechion
dros fro sydd yn golygu cymaint
imi.

Mae'n rhaid inni helpu ein
hunain a wynebu'r her gan mai
ein cymdeithas Gymraeg
unigryw ni yw hon.

Er mwyn Cymru.
Y Meddyg Carl Iwan Clowes
(Cyn-gadeirydd Antur
Aelhaearn, Llanaelhaearn)
Y Wigoedd
Rhoscefnhir,
Môn.

AMGUEDDFA'R MÔR, GWYNEDD

Annwyl Sylr,
Gwnaethpwyd cynnydd wrth
sefydlu Amgueddfa'r Môr,
Gwynedd ym Mhorthmadog.
Dechreuwyd ar y gwaith o
atgyweirio a moderneiddio yr
hen seid lechi ar Cei Greaves i
gartrefu'r amgueddfa. Dylai
rhan o'r amgueddfa fod yn
agored i'r cyhoedd ym mis Mai,
1981. Eisoës symudwyd y ketch
hwylio, 'Garlandstone' ger yr
amgueddfa, a'r gobaith yw ei
hatgyweirio i'w chylfwr
gwreiddiol.

Amcan yr amgueddfa yw
portreadu hanes y môr sy'n
berthnasol i Wynedd, yn llongau
a morwyr. Y bwriad yw creu
amgueddfa fydd yn dangos i'r
cyhoedd eitemau a
longddrylliwyd, ond sydd wedi
eu hadfer a'u cadw. Gobaith
arall yn y tymor hir yw adeiladu
copi cywir o un o hen longau
hwylio Porthmadog, a'i hwylio
ar y môr.

Onid prif bwrpas y llythyr yw
apelio am gymorth. Gan fod
cymorth ariannol yn gyfyngedig,
mae help gwirfoddol yn
holl-bwysig i'r fenter hon. Mae
angen help i weinyddu a rhedeg
yr amgueddfa o ddydd i ddydd,
ac yn arbennig pobl i arwain a
thywys y cyhoedd gan fod y
'Garlandstone' wedi ei symud.
Mae angen tywyswyr i weithredu
ar rota, e.e. prynhawn neu fore
yr wythnos. Gwerthfawrogir
hefyd sgiliau 'Cyfeillion' ym
meysydd gweinyddiaeth
ariannol a chatalogiaeth.
Gwerthfawrogir unrhyw help i
wneud Amgueddfa'r Môr,
Gwynedd yn amgueddfa
lwyddiannus.

Os y tybiwch y gallwch fod yn
'Gyfaill' i'r Amgueddfa, a

cysylltwch â mi neu ag unrhyw
aelod o bwyllgor yr Amgueddfa.

Yn gywir,

John Alan Roberts
(Swyddog Cyswllt 'Cyfeillion yr
Amgueddfa')

Yr Harbwr
Porthmadog
Ffôn. Porthmadog 2230

CYDYMDEIMLAD A CHYMORTH

At y Golygydd,
Carwn dynnu sylw eich
darllenwyr at y ffaith fod cangen
o'r 'Stillbirth and Perinatal Death
Association' newydd gael ei
ffurfio yng nghylch Bangor a
Caernarfon. Cymdeithas yw
hon sy'n amcanu at estyn
cydymdeimlada chymorth i rieni
a gollodd eu babanod, naill ai
drwy farw-enedigaeth neu
farwolaeth yn fuan ar ôl eu geni.
Ceir tuedd weithiau ar ran pobl i
feddwl nad yw colli baban o dan
yr amgylchiadau hyn yn wir
brofedigaeth, a disgwylir i'r
rhieni ddod dros y profiad cyn i'w
galar gael amser i redeg ei gwrs
yn naturiol.

Mae aelodau'r Gymdeithas i
gyd yn bobl sydd wedi colli
babanod eu hunain, ac yn
gwybod mai prif angen llawer o
rieni sy'n galaru yw cael cyfle i
sôn am eu teimladau. Maent felly
yn cyfarfod o dro i dro i siarad a
thrafod a chyfnewid profiadau.
Mae croeso i unrhyw riant sy'n
teimlo angen sgwrs ddod i'r
cyfarfodydd hyn, neu gysylltu â
ni ar y ffôn neu drwy lythyr os
nad ydynt yn teimlo y gallant
ddod i'r cyfarfodydd.

Am fwy o wybodaeth cysyllter
Yn Saesneg os gweler yn dda â:
Ros Roberts, 79 Cae Gwyn,
Caernarfon, ffôn: Caernarfon
4012 a Pat Round, ffôn. Bangor
51516.

Neu gyda mi (yn Gymraeg) ar
Nefyn 720965.

Yn gywir,
Grace Roberts.

Garth Hudol
Rhodfa'r Môr,
Nefyn.

GŴYL LAFUR GYDWLADOL

Hoffwn, drwy gyfrwng eich
papur bro, ddwyn i sylw'r
darllenwyr yr Ŵyl Lafur
Gydwladol sydd i'w chynnal ym
Mangor ar Fai 4. Mae
cynghorau undebau llafur
Gwynedd a Chlwyd sy'n
cynrychioli undebywr llafur
ledled y Gogledd, yn trefnu'r
Ŵyl hon gyda'r bwriad o
ailgychwyn y traddodiad o
ddathlu diwrnod rhyngwladol y
dosbarth gweithiol yn lleol.
Cyda llaw, ar Fai 4 ym 1890 y
cynhaliwyd cyfarfod enfawr yn
Hyde Park, Llundain, a oedd yn

uchafbwynt brwydr gweithwyr
Ewrop am ddiwrnod gwaith
wyth awr. Er hynny, drwy'r byd,
dethlir Calan Mai fel dydd
ryngwladol y gweithwyr. Bu'r
Ŵyl Lafur yn draddodiad ymysg
gweithwyr Gwynedd, yn
enwedig chwarelwyr, am sawl
degawd.

Eleni mae pleidiau
gwleidyddol y chwith, grwpiau
heddwch a mudiadau radical yn
ogystal â'r undebau llafur yn
chwarâe rhan yng
ngweithgareddau'r Ŵyl Lafur
ym Mangor. Bydd y p'nawn
prysur yn cychwyn am hanner
awr wedi hanner dydd gyda
gorymdaith ar hyd Ffordd
Caernarfon i Undeb y
Myfyrwyr. Yno cynhelir
cyfarfod cyhoeddus gydag
areithiau gan Meirion Hughes
(Ymgeisydd Llafur Gorllewin
Fflint), Dafydd Elis Tomos
(Aelod Seneddol Meirion) ad
Idwal Edwards (cyn swyddog
undeb lleol) a darllenir
cyfarchion oddi wrth weithwyr
sawlgwlad. Trwy gydol gweddill
y p'nawn bydd cyfle i weld
amrywiaeth o ffilmiau,
stondinau ac arddangosfeydd.
Darperir lluniaeth ysgafn a gofal
plant. Mae croeso, yn rhad ac am
ddim, i bawb i'r Ŵyl.

Yn frawdol,
Selwyn Williams
(Pwyllgor Trefnu'r Ŵyl)
Cartref,
Ffordd yr Orsaf,
Llanrug.

YMGYRCH GWRTH NIWCLIAR

Annwyl Olygydd,
Ar Ebrill 14 cychwynnodd y
Gynghrair Gwrth Niwcliari
Gymreig ymgyrch fawr ledled
Cymru i ddileu'r bygythiad
niwcliari o'r wlad. Geilw'r
ymgyrch ar i bob Cyngor Sir yng
Nghymru gyhoeddi ei
wrthwynebiad swyddogol i leoli
unrhyw arfau niwcliari o fewn ei
ffiniau. Yn ogystal gofynnir am yr
un gwrthwynebiad yn erbyn
symud a storio defnyddiau
niwcliari o unrhyw fath. Fe
ofynnir i'r Cyngor Sir yng
Ngwynedd wrthod caniatâd i
godi mwy o orsafoedd pŵer
niwcliari yn yr ardal.

Dechreuir ar yr ymgyrch trwy
geisio darbwyllo'r ymgeiswyr yn
etholiadau'r Cyngor Sir i
gynnwys gwrthwynebiad i'r
rhaglen niwcliari fel rhan o'u
llwyfan. Ar ôl yr etholiadau, fe
ofynnir i bob Cyngor
gymeradwyo polisi gwrth
niwcliari fel rhan o raglen ynni
mwy rhesymol.

Yng Ngwynedd caiff ymgyrch
CWNG gefnogaeth gefnogaeth
eang yn ddaearyddol ac yn
gymdeithasol gan Madryn,
Cymdeithas Ecolol, Ffrindiau'r
Ddaear, CND a Grwpiau gwrth
Niwcliari a Grwpiau Heddychol.

Yr eiddoch yn gywir,
Frances Volecher,
Ogoronwy,
Llanfrothen,
Penrhyndeudraeth.

TROI'N CHWERW

Annwyl Syr,

Calondid yw deall fod cymaint wedi cael mwyniant wrth ddarllen fy narnau am 'Home Guard', Penisarwaun, ac yn eu plith, Mr O. Jones, Llangefni, gynt o Lanbabo, Arfon.

Stori gyfareddol ydy ei un o, a dyma'r munud cynta i mi ei chlywed, ac amheuthun hynny, gan fy mod ym Mrynrefail tua'r cyfnod hwnnw ac yn adnabod y cymeriadau dan sylw. Allaf fi ddim felly ond barnu'n ôl tystiolaeth yr hanesyn fel y mae wedi ei osod gan yr awdur.

Hen holpyn y cyfrifid Mr Chadwick y Faenol gan y tenantiaid yn gyffredinol. 'Dydy o ddim syndod i mi ei fod wedi defnyddio ei awdurdod i eithaf ei ddylanwad. Ond unigolyn hollol wahanol oedd Mr Emrys Thomas, MA. Roedd o'n brifathro da, yn ddisgyblwr llym, ond yn bwylllog, a'i ddylanwad a'i gyfaredd ar ddosbarth yn gyflawn. 'Doedd o ddim 'chwaith yn ddieithryn i ddisgyblaeth lem y fyddin. Gresyn fod ei debyg wedi mynd mor anaml ar wyneb daear.

Mae fy narnau i, mi wn wedi cyfrannu tuag at greu delw o drwstaneiddiwrch yr 'Home Guard', ond peidied neb â noswyllo o dan yr argraff mai syrcais oedd y sefydliad i gyd. 'Roedd pob aelod o dan ddeddf ddisigl y fyddin reolaidd ac yn atebol i KTs. Nid mater o 'chwaras sowldiwr' oedd i ddyn a oedd wedi bod yn creigio drwy'r dydd, neu ddilyn cefylau yn y pridd yn nhes haf 1940, fynd wedyn, drwy'r nos i lyffanta ar y Caera Mawr neu rhyw gaera arall, o ran hwyl. Buasai gangwaith gwell ganddo fod yn rhochian yn ei wely a minnau i'w ganlyn.

Mae rhywun sy'n cario'r argraff honno yn anhebygol o fod wedi trigo o fewn yr Ynysoedd pan oeddent o dan ddeddf Argyfwng Cenedlaethol ac er mwyn ehangu dysg y brodorion presennol, 'roedd hynny yn golygu rhyfygu cael bwled fel gwobr am adloniant mor syml â malu teliffon.

Ond i ganlyn ar yr hanesyn, 'rwy'n synnu fod gwylywyr y Foel wedi llyncu'r neges Ffŵl Ebrillaidd mor hawdd, a hwythau, debygwn, yn gynefin â gwamalrwydd ymarferol y chwarel yn ddyddiol. Synnaf fwy at eu swyddogion yn ychwanegu at y bwganod a chodi'r fath gythrwyl.

Ond deudwch a fynnoch - jôc bach ddigon rhyfygus oedd hi o'r dechrau. Wn i ddim sut yr oedd hogiau Llanbabo yn trefnu eu symudiadau, ond 'rwyf fi wedi rhannu gwyliadwriaethau ar y Caera efo mwy nag un o Benisarwaun fuasai wedi bod

mor eofn, neu mor ffôl (beth bynnag ydi'r gwahaniaeth rhwng y ddau erbyn heddiw), i guddio o'r neilltu i ddisgwyl dyfodiad y 'spies' ac wedi gollwng cynnwys magasin i'w hymysgaroedd heb ymgynghori dim â chig a gwaed. Dim ond - yn ein hachos ni, y 'speis' yn y tywyllwch fuasai, Lt. D.I. Jones, prifathro ysgol y ffoaduriaid, tad Hilary, neu Lt Hugh Thomas, Cerrig Gwynion, tad Catherine a Margaret, y ddau yn achlysurol ymweld ganol nos i edrych 'sut oeddau ni'n mynd ymlaen'.

Y cwestiwn wedyn ydi, ac 'rwy'n ei gyfeirio at Mr Jones, Llangefni, yn fwy na neb. Lle buasai'r jôc yn hynny? Wela i ddim mohoni hi.

Felly, o dan orchymyn ei uwch swyddog, Chadwick, 'doedd gan Mr Emrys Thomas ddim dewis ond cosbi, ond rwy'n sicr, pe bai'r sefyllfa yn groes hirgroes, fuasai ddim angen y gansen.

Gan gofio ein bod bellach yn trafod gweithgareddau rhai nad ydynt yn bresennol i roi tystiolaeth, a chofio hefyd fy mod innau unwaith wedi bod o dan gosbedigaeth Mr Thomas gofynnaf gwestiwn ar ffurf awgrymiad pur.

Tybed i Mr O. Jones, yng ngwres yr argyfwng, gamgyfrif y gwialenodiau&

Yn gywir,
John E. Williams
(Awdur 'Paul Jones a'r Tywysog', a nofelau eraill).
Y Gors,

Allt Riwth,
Pontrhythallt,
Llanrug.

CANMOLIAETH A CHAIS

Annwyl Syr,
Mi hoffwn ddiolch yn gynnes iawn am y wledd o bob amrywiaeth a gawn gennych o fis i fis yn 'Eco'r Wyddfa'. Y mae ynddo bethau diddorol ac addysgiadol ar gyfer pob oed, y mae'r lluniau yn wych.

Wrth ddarllen disgrifiad Mrs Mary Lloyd Williams, sef hanes ei thaith i fyny'r mynydd at gartref Carneddog ym Meddgelert y mis hwn, teimlais fy mod yn cyd-gerdded â hi. Y mae Mrs Williams wedi rhoi'r hanes mor fyw i ni. Diolch amdano.

Tybed a fuasech yn caniatáu i mi ofyn i Mrs Williams roi i ni y darlun enwog hwnnw allan o'r 'Cymro', sef llun Carneddog a'i wraig Catrin yn ffarwelio â'u cartref yn Carneddi. Mae gennyf gopi o'r darlun wedi ei wneud mewn pensal yn hongian ar y pared yn y gegin yma. Y mae amryw o'ch darllenwyr heblaw fi yn dymuno gweld y darlun yn 'Eco'r Wyddfa' a hefyd hoffem gael ychydig o hanes Carneddog gan Mrs Williams yn ei cholofn werthfawr, 'Agor Ffiniau'r Gorffennol'. Teitl y darlun ydyw 'Rwy'n edrych dros y Bryniau Pell'.

Diolch yn fawr.
Yr eiddoch yn gywir,

Mair Iola Rowlands.

Cilmeri,
5 Hafan Elan,
Llanrug.

ATGOFION MELYS

Annwyl Olygydd,

Gweld llun plant ysgol Tan-y-coed, Penisarwaun yn tynnu fy sylw yn Eco mis Ebrill.

Yn y rhes flaen a reit yn y canol mae fy merch Sheila ac ar yr ochr dde yn yr un rhes mae Owi Griffith, Bryntirion, Penisarwaun.

Yn y rhes ganol tu ôl i Sheila mae Anwen Price, Bryntirion.

Yr athrawes yn fy nhyb i yw Miss Annie May Williams o Frynrefail.

Yn Waen Penisarwaun yr oeddym yn byw yr adeg honno, amser hapusaf fy mywyd, dwyn fy mhlant i fyny.

Yr eiddoch yn gywir,
21 Lawrence Ave
Moulton,
Northwich
Swydd Gaer.

CHWYDDIANT

Annwyl Olygydd,

Wrth weld pob dim yn codi yn ei bris, yr wyf yn cofio i mi ddarllen yr englyn yma o waith Mr R.E. Jones, Llanrwst yn weddol ddiweddar.

Y BUNT

Fy mhunt druan! Pâr o sana' - i'r wraig,

Sigarets i minna,
Dwy dorth, tun blacin, da-da -
Hi ddiflannodd fel yna!

Sawl punt fuasai yn rhaid iddo'i rhoi am y nwyddau a enwir yn yr englyn heddiw?

"Pam 'rwyf ti'n poeni? 'Does gen ti ddim car."

"Nac oes. Ond mae gen i beth-tanio-sigare't."

Yn gywir iawn
Perisfab
8 Glanrafon,
Nant Peris.

CARNIFAL LLANBERIS - GWAHODDIAD

Annwyl Olygydd,

Carwn drwy gyfrwng eich papur ar ran pwyllgor Carnifal Llanberis estyn gwahoddiad i Ddawnsiwr Morus a Majorettes ardal Eco'r Wyddfa a thref Caernarfon i Garnifal Llanberis a gynhelir ddydd Sadwrn, Gorffennaf 18.

Fel y llynedd beirniadir y ddawnsiwr

ar y stryd yn yr orymdaith ac yna bydd y parti Morus gorau, y parti Majorettes gorau a ddawnsiwr Llanberis yn ddawnsio yn y cylch ar y maes. Bydd tlws i'r ddau barti gorau.

Carwn hefyd estyn gwahoddiad i Freninesau Carnifalau Cylch yr Eco a thref Caernarfon i'r Carnifal. (Ni fydd cystadleuaeth iddynt).

Os ydych am ddod yma cysylltwch â mi yn y cyfeiriad isod cyn gynted ag sy'n bosibl.

Yr eiddoch,
Alwyn Thomas (Ysg)
Foelas,
19 Stryd Newton,
Llanberis.

LLYTHYR AGORED oddi wrth y Cynghorydd Mrs Pat Larsen

Gadewch i mi ddiolch i chi am y croeso mawr a gefais yn eich cartrefi wrth i mi fynd o amgylch yn canfasio. Pleser mawr i mi oedd sgwrsio gyda hen gyfeillion ac yn wir ddod o hyd i gyfeillion newydd.

Y mae'r Ward hon yn anferth gyda 3000 neu well o etholwyr; yr oeddwn yn bwriadu galw heibio pob un ohonoch yn bersonol ond yn anffodus cafodd fy mab Rheon anafiadau i'w wyneb a'i lygad. Oherwydd hyn bu yn yr ysbyty am bron i wythnos ac yn naturiol yr oeddwn gydag ef yno yn fynych. Collais ddyddiau o amser canfasio a go brin y gallaf eich gweld i gyd cyn yr etholiad. Ond gwn y caffaddeuant am y tro ac na fyddwch ddim dicach â mi.

Os byddwch yn penderfynu rhoi tymor arall i mi ar Gyngor Gwynedd medraf addo yn ddifffuant y gwnaf fy ngorau glas i'ch gwasanaethu fel unigolion ac fel bro; dydw i ddim yn gaddo cyflawni gwythiau i chi. Buasai hynny yn anonest.

Un siom a gefais y tro diwethaf oedd sylwi nad oedd rhai o'm cyfeillion wedi cofio pleidleisio. Os cerwch drafferth i fynd i bleidleisio gellwch ffonio Llanberis 533 i drefnu lifft. Ga' i felly apelio amoch i gofio pleidleisio ddydd Iau, Mai 7.

Pat Larsen
Llygad yr Haul,
Penisarwaun.

Cefnogwch Ein Hysbysebwy

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen
Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

O6I90 – O CHWECH I NAW DEG!

Sylwch fod y teitl yn aros yr un
fath hyd yn oed ar ei ben i lawr!

GWYDR

TUDALEN I'R
PLANT: HEN AC
IFANC
Gan
DYFRIN
Y DEWIN



Dyma ddiwydiant a ddechreuwyd o leiaf bum mil o flynyddoedd yn ôl, oherwydd 'roedd yr Eifftiaid yn creu mwclis a thlysau o wydr. Daeth pobloedd eraill o amgylch Môr y Canoldir i ddysgu'r gerfft oddi wrthynt, ac yn raddol, lledodd y wybodaeth i Ewrop.

Cymysgedd o dywod, calch a soda wedi eu poethi yw gwydr, ac erbyn heddiw mae'n cael ei fasgynhyrchu mewn gwahanol ffatrïoedd ar hyd a lled y byd.

Y dull traddodiadol o wneud gwydr oedd chwythu'r hylif chwilboeth. 'Roedd yn galw am grefftwr medrus ac amseru perffaith, oherwydd 'roedd y gwydr tawdd yn oeri'n gyson. Yn gyntaf, 'roedd tiwb metel hir yn cael ei osod yn y gwydr tawdd; ei godi a'i rowlio (yn union fel codi triagl efo llwy). Rhaid chwythu trwy'r tiwb i greu sweigen yn y gwydr a pharhau i rowlio a chwythu. Unwaith y byddai'r weigan yn ddigon mawr gellid ei gweithio â gwahanol offer.


Erbyn heddiw, mae poteli o bob math yn cael eu masgynhyrchu. Yn Harlow, Swydd Essex, mae un o ffatrïoedd poteli gwydr mwyaf

Prydain. Mae'r ffwrnais yno yn toddi 25 tonn o wydr bob dydd, ac yn cynhyrchu 13,000,000 o boteli bob wythnos.

Mae llawer math gwahanol o wydr yn cael ei gynhyrchu erbyn heddiw – rhai ar gyfer defnydd pob dydd – e.e. poteli llefrith; rhai ar gyfer addurniadau – e.e. 'cut glass'. Math arbennig o wydr yw Pyrosil sy'n cael ei ddefnyddio i wneud llestri coginio oherwydd ei allu i wrthsefyll gwres uchel. Math arall arbennig yw Triplex, a ddefnyddir i wneud ffenestri cerbydau.

CYSTADLEUAETH: Bydd £1 o wobr i'r un a all ddyfeisio enw Cymraeg am 'cut glass'. Anfonwch eich ceisiadau i Dyfrin y Dewin, Gwasg Gwynedd, Caernarfon erbyn Mai 20.

Un sâl am golli ydi Wil!



SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

BLASU BYWYD COLEG – Ar Fawrth 30-31 ymwelodd aelodau o flwyddyn 1af y chweched dosbarth â'r Brifysgol ym Mangor. Cawsant gyfle i flasw bywyd y Coleg a chael cyfle i weld pa gyrfa oedd ar gael yno. Treuliasant noson yn Neuadd Breswyl Gymraeg John Morris-Jones.

Dydd Gwener, Ebrill 10 ymwelodd aelodau dosbarthiadau Cemeg a Ffiseg y 63d dosbarth â'r Brifysgol ym Mangor.

CYNHADLEDD CHWECHED DOSBARTH – Cafwyd cynhadledd i'r 6ed Dosbarth yn Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon, yn ystod y mis. Cafwyd darlith ar y Cenhedloedd Unedig, gan Weithiwr Cymdeithasol o Wrecsam, fel rhan o'r gweithgareddau.

DARLITH WILLIAM LEWIS – Yn ystod y mis ymwelodd William Lewis, un o ddarlithwyr Coleg Prifysgol Bangor â'r chweched dosbarth i roi darlith ar ddrama enwog Saunders Lewis, 'Blodeuwedd'. Mae'r ddrama hon yn lyfr gosod yn y cwrs lefel A Cymraeg.

GWAITH 'BRICS' – Brynhawn Gwener, Ebrill 10 aeth Miss Elizabeth Williams, Mr Harri Jones a Mr Selwyn Allsup a disgyblion dosbarthiadau 4 a 5 i'r gwaith brics yng Nghaernarfon. Cafwyd cyfle i weld o amgylch y gwaith a chawsant groeso mawr gan y gweithwyr.

EISTEDDFOD YR URDD – Cynhaliwyd Eisteddfod Sir yr Urdd i Ysgolion Uwchradd eleni yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes. 'Roedd dau o ymgeiswyr o'r Ysgol yn fuddugol.

Enillodd Rhian Owen ar yr unawd i ferched 15-19, ac enillodd grŵp o'r ysgol, 'Gwlith', y gystadleuaeth cân werin fodern. Aelodau 'Gwlith' oedd Rhian Owen, Siân Gibson, Ruth Lennon, Iola Llywelyn, Nia Pritchard Jones a Lynne Jones.

Pob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghastell Newydd Emlyn.

Er mwyn codi arian i'r buddugwyr i fynd i Gastell Newydd Emlyn mae'r ysgol yn trefnu Noson Goffi ar Fai 14. Bydd cyfle i glywed y cystadleuwyr yn y noson goffi.

Cafodd yr ysgol nifer o wobrau yn yr adran Gelf yn Eisteddfod y Sir: Gwyneth Evans – 2; Angela Lloyd – 1; Jacqueline Hobby – 3; Helen Owen – Dau 1af; Dylan Wyn Jones – Dau 1af; Jessica Williams – 2; Paula Radnor – 1af ac 2il; Christopher Mark Williams – 1; Andrew V. Williams – 3; Rhian Davies – 2; Ruth Evans – 1af ac 2il.

Bydd y lluniau buddugol hyn yn cael eu beirniadu eto yn Eisteddfod Castell Newydd Emlyn. Lwc dda iddynt.

DIOLCH KATHY. CROESO RUTH – Oherwydd arholiadau lefel A, y mis

hwn yw mis olaf Kathy Williams, Deiniolen fel cynfranwraig i'r golofn ysgolion. Carwn ddiolch i Kathy am ei chymorth parod yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a dymunaf bob llwyddiant iddi yn ei harholiadau ac yn ei gyrfa ar ôl gadael yr ysgol.

Ar yr un pryd carwn estyn croeso i Ruth Lennon, Llanberis sy'n cymryd lle Kathy. Mae Ruth ar ei blwyddyn 1af yn y 6ed dosbarth yn astudio Cymraeg, Hanes a Cherddoriaeth. Croeso Ruth.

PÊL-DROED – Yn Llangefni. Colli wnaeth y bechgyn hŷn, dan 15 a thîm yr 2il flwyddyn. Bechgyn y flwyddyn 1af wnaeth orau drwy chwarae gêm gyfartal, 1-1 oedd y sgôr.

GEMAU TAI – Yn ystod y mis fe chwaraewyr y gemau tai. Eryri oedd y pencampwyr o dan 13eg oed ac Elidir a enillodd y gystadleuaeth dan 15 oed.

Cyfanswm pwyntiau – Eryri: 25, Eilian: 25, Elidir: 30, Gwyrfa: 20.

TRAWS GWLAD – Ymunodd nifer fawr o fechgyn a genethod yr ysgol yn y rاس traws gwlad ar Ebrill 1. Dyma'r enillwyr: Bechgyn leuengaf – Darren Roberts (Llanberis a Thŷ Eryri), 16m – 39ail. (record. Bechgyn lau – Gareth Hughes (Deiniolen a Rhŷ Gwyrfa), 15m – 37.8 eil. Bechgyn hŷn – Ceris Jones (Llanrug a Thŷ Eilian), 22m – 25 eil. Genhod lau – Melanie Sellers (Llanberis a Thŷ Elidir), 18m – 20 eil (record). Genhod hŷn – Eurgain Roberts (Penisarwaun a Thŷ Eilian), 17m – 39 eil.

Cyfanswm Pwyntiau – Eilian 87, Elidir 112, Eryri 113, Gwyrfa 92.

HTV YN RHOI RHODD I'R URDD


Yn ddiweddar cyflwynodd Bwrdd Cymreig HTV siec o £500 i Urdd Gobaith Cymru, sef y cyntaf o bedwar cyfraniad o dan Gyfamod pedair blynedd.

Cyflwynwyd y siec i Gadeirydd yr Urdd, Mr Prys Edwards, gan un o gyfarwyddwyr HTC, Mr Alun Edwards, mewn cyfarfod arbennig yng Nghanolfan yr Urdd, Aberystwyth.

Dywedodd Mr David Meredith, Pennaeth y Wast a Chysylltiadau Cyhoeddus HTV CYMRU, bod y Bwrdd yn falch o roi cymorth ymarferol i fudiad sydd wedi gwneud cymaint ym myd cyhoeddi, gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon a gweithgareddau hamdden ar gyfer ieuenctid yng Nghymru.

Mae HTV wedi gwneud ymrwymiad i gyflwyno i'r Urdd siec gyffelyb am y tair blynedd nesaf.

Wrth droed yr Wyddfa . . .



BWYTY FFERM BRON ERYRI LLANBERIS Ffôn 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Bwyty
Trwyddedig

A la Carte

Bwyd Basgedi

Bwyd Môr Ffres

Wedi eu paratoi gan ein Chef profiadol iawn

Partion

Ciniawau

Gwleddoedd

Priodasau

Lle i 110 ar y tro
Ffoniwch i fod yn saff o le

GŴYL BASG ADFER

EBRILL 21-24

Eleni, penderfynodd mudiad Adfer gynnal eu Gŵyl Basg yn y fro hon, a daeth y gwaith o drefnu'r gweithgareddau i ran Glyn Tomos, Dinorwig. Efyw Cadeirydd Mudiad Adfer, ond mae'n debyg mai fel golygydd y cylchgrawn canu pop Sgrech, y mae'r mwyafrif o bobl yn ei adnabod. Gŵyl ddiwylliannol yn hytrach nag un wleidyddol ydoedd y nod, a'r digwyddiadau'n rhai a fyddai'n apelio at bobl o bob oed.

Dechreuodd y gweithgareddau ar y nos Fawrth, gyda darlith ar y testun 'Bargen Dinorwig', yng Nghanolfan Gymdeithasol y pentref. Y darlithydd oedd Emyr Jones, awdur y llyfrau 'Bargen Dinorwig' a 'Canrif y Chwarelwr', a pherson y mae llawer ohonoch yn ei adnabod yn bersonol, 'rwy'n siŵr. Cafwyd noson hynod o ddifur yn ei gwmi, a chawsom glywed am galedi a digalondid bywyd y chwarelwr, yn ogystal â'r direidi a'r atgofion melys. 'Roedd Emyr Jones wedi dod â nifer o bethau gydag ef, gan gynnwys cadair Eisteddfod y Chwarel a enillodd yn 1938. Y beirniad oedd R. Bryn Williams gweinidog yn Llanberis ar y pryd, ac un a ddaeth wedyn yn Archdderwydd Cymru. Ar ôl y ddarlith, cafodd y gynulleidfa gyfle i gael golwg ar yr hen greiriau diddorol. O sôn am y gynulleidfa, mae'n rhaid dweud fod traws-doriad teg o'r gymdeithas leol yno, o chwarelwyr a phobl ganol-oed i griw o hogia' ifanc, nad oeddynt ond yn prin gofio'r chwarel yn gweithio. 'Roedd y noson yn siŵr o fod yn un fuddiol iawn i'r ieuencid ac yn agoriad llygaf iddynt. Llywyddwyd yn naturiol a di-lol iawn gan Mr Huw Jones, un o'r cyn-chwarelwyr.

Cyfle'r plant ieuengaf i ddangos eu dawn ar lawr y ddawns oedd hi nos Fercher, a hynny yn Neuadd Goffa Bethel. Disgo'r Llais o Fethesda oedd yn creu'r gerddoriaeth, ac er bod maint y gynulleidfa braidd yn siomedig, 'roedd brwdfrydedd y rhai a oedd yno yn gwneud iawn am hynny. Eto, mae'n drist meddwl fod yna amryw o blant o gwmpas o hyd sy'n glynu at y syniad hen-ffasiwn mai rhywbeth 'bo-or-ing' ydi dawns Gymraeg. Brysied y dydd pan sylweddolant mai syniad hollol ddwl yw hwn.

Am weddill yr ŵyl, cynhaliwyd y gweithgareddau yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis, ac ar y nos Iau cafwyd noson o ganu gwerin yng nghwmni Tecwyn Ifan. 'Rwyf wedi clywed Tecwyn yn canu nifer o weithiau yn ddiweddar, ac yn aml ceid carfan o'r gynulleidfa nad oeddynt yn barod i wrando'n astud iawn arno, ond, nos Iau diwethaf, bron na allech glywed ambell oriawr yn tician! Cymysgedd o'r hen a'r newydd a gafwyd yn y perfformiad, ond yr hyn a ddaeth drosodd orau oedd y geiriau proffwydol sydd mor nodweddiadol o Tecs erbyn hyn. Cafodd y gynulleidfa, a oedd yn amrywio o laslanciau i hen stejars, noson hynod o bleserus, a gobeithio'n wir fod pawb wedi deall yr hyn a oedd Tecs yn geisio ei gyfleu i ni.

Noson o ddisgo oedd i eto nos

Wener, ac yn ogystal â recordiau, cafwyd perfformiad byw gan y grŵp Doctor. Dyma'n sicr uchafbwynt yr wythnos yn fy marn i, ac, yn wahanol i'r ddawns ym Methel, 'roedd gwesty Dolbadarn yn orlawn, ac ymysg y dorf 'roedd tua deg-ar-hugain o Wyddelod ifanc yn gwirioni ar gerddoriaeth Gymraeg. Ar ôl i Arwel Disgo'r Llais fod yn troelli am ryw awr a hanner, daeth y grŵp Doctor i du blaen yr ystafell, ac am yr awr nesaf cawsom ddôo o'u moddion arbennig hwy. O sylwi ar ymateb y gynulleidfa, gallasech feddwl fod un o brif grwpiau Cymru'n perfformio, a chwarae teg, yr oedd Doctor yn perfformio fel petai profiad blynyddoedd lawer o'u hól. Rhaid talu terynged i'r gynulleidfa yn hyn o beth, gan fod eu brwdfrydedd hwy yn siŵr o fod wedi 'sbarduno'r grŵr i roi eu gorua. Brysied y dydd pan ddaw'r Doctor yn ôl i Lanbêr i gynnal Syrjieri arall!

Cyn gorffen, mae'n rhaid diolch i ddau berson yn arbennig, sef Glyn Tomos a Gwilym Owen (Bert). Heb eu gwaith a'u brwdfrydedd hwy, ni fyddai'r Ŵyl wedi bod yn bosib'. Rhaid diolch hefyd i hogia Dinorwig am gynorthwyo wrth y drysau, i Eric am dynnu'r lluniau ac, yn fwy na dim i bawb a gefnogodd yr ŵyl.

Emyr Llywelyn Gruffudd.

AR WERTH

MINI YSTAD (Leyland) 998 c.c.
Cofrestrwyd Hydref 1971 (K).
Tystysgrif brawf Gorffennaf 1981.
Cynigion: Waunfawr 545.

PAIS MIS MAI

Mynnwch eich PAIS y mis hwn, a darllenwch hanes Rhiannon Morris, y ferch sy'n dreifio bysus nid yn unig o gwmpas ardal Eco'r Wyddfa ond o gwmpas y cyfandir hefyd. Cewch wybod yn ogystal beth yw barn dynion fel Dafydd Iwan, Dylan Iorwerth a Gwenlyn Parry am gystadlaethau prydferthwch fel cystadleuaeth Miss Wales. Mae hyn a llawer mwy yn Pais mis Mai sydd ar werth yn eich siop bapur newydd leol ac yn y siopau Cymraeg.

STORFA

Mace

O.R. & M.

PARRY

Sgwâr Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
& diodydd

DINORWIG

BARGEN DINORWIG – Fel rhan o weithgareddau wythnos Gŵyl Basg Adfer cynhaliwyd darlith ar y testun 'Bargen Dinorwig' gan Emyr Jones yn y Ganolfan leol ar nos Fawrth, Ebrill 21. Cafwyd noson hynod o ddiddorol wrth wrando ar Mr Jones (awdur y llyfrau: Canrif y Chwarelwr a Bargen Dinorwig) yn traethu ar hanes y chwarel a'i chymeriadau dros y blynyddoedd. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Mr Hugh Thomas a thalwyd diolchiadau gan Mr Gwyn Parry, Deiniolen.

CYNGERDD – Nos Iau, Ebrill 2, yn y Ganolfan, bu cyngerdd dan nawdd Seindorff Arian Deiniolen a'r cylch. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Gwyn Parry, Deiniolen. Cafwyd eitemau o wahanol ddarnau cerddorol gan y Seindorff, dan arweiniad eu harweinydd newydd, Mr D. Williams, Llanfair P.G. Eitemau mewn canu gan Mrs Einir Wyn Williams, Rhiwlas, a hefyd mewn adrodd gan Miss Nia

Davies, Deiniolen. Cyfeiliwyd gan Miss Annette B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig. Gwnaed casgliad gwyn ac â'r elw at gynorthwyo i'r Clinig Nyrso yn Neiniolen. Cafwyd noson ddifur iawn. Diolchwyd i'r gynulleidfa am eu cefnogaeth i'r achos gan Mr Gwyn Parry.

DIOLCH – Dymuna Mrs Lizzie Jones, Bron Myfyr, Dinorwig, a Mrs Jane Jones, Buarth Newydd, ddiolch i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu pen-blwydd yn 80 oed.

PEN-BLWYDD – Dathlodd y ddwy chwaer, Mrs L. Jones, Bron Myfyr, a Mrs J. Jones, Buarth Newydd (sy'n efeilliaid) – eu pen-blwydd ar Ebrill 10 eleni, yn 80 mlwydd oed. Maent yn enedigol o Ddinorwig. Pob bendith i'r dyfodol iddynt.

GWAELEDD – Cofion at ddarlennwyr yr Eco sy'n cwyno'r dyddiau hyn a dymuniad am wellhad buan iddynt.



Llongyfarchiadau i Mrs L. Jones a Mrs J. Jones, sy'n efeilliaid. Dathlodd y ddwy eu pen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

Diolch yn fawr i Mr John V. Morris, Crown, Clwydbont, am un arall o'i gerddi.

CYDWYBOD

Mae dyddiau'r haf ar ddarod, Rhaid symud 'nawr o'r Hafod; Dweud ffarwel i'r tyddyn clyd, Ni allaf fyth ddychwelyd.

Mae'r bladur wedi rhydu, Y gwair ar lawr yn pydru; A'r ffridd yn wag 'rôl gwerthu'r stoc, Dim oen na dafad yn y lloc.

Daeth newid oes, a thro ar fydd, Mae rhedeg fferm yn job rhy ddur; Pris gwlan i lawr, a'r ŵyn yn rhad, Rhaid cefnu 'nawr ar fydd cefn gwlad.

Pris defaid cadw'n codi'n uwch, A threth gan Ffrainc ar lefrith buwch; A Magi Thatcher gyda'i chriw, Yn rhwbio'r halen mewn i'r briw.

Llwgrogwrogy ddaw yn rhad! I rai gael pris trwy dwyll a brad! Mae llawer un yn llwm ei 'stad, 'Rôl gwerthu'i enaid a'i dreftad.

Er cael ceiniog yn y boced, Mae o'n dlawd ar ôl yr hoced, Er cael llond ei fol o wisgi, Mae o'n dal i fethu cysgu!

Mae'n well gen i, onestwydd glân, A'n nhraed yn sych o flaen y tân; Mae'n well gen i, y gair sy'n wir Gydwybod braf, a meddwl clir!

GŴYL WERIN CAERNARFON

Bydd y Cymdeithasau Canu Gwerin a Dawnsio Gwerin yn cynnal eu gŵyl flynyddol eleni yn yr ardal hon. Cynhelir yr ŵyl dros benwythnos gyntaf mis Hydref, ond mae'r pwyllgor wedi ymgynnull yn barod ac mae'r trefniadau bron wedi eu cwblhau.

Bydd y gweithgareddau yn dechrau nos Wener, 2 Hydref gyda noson o Gawl a Chân yng nghwmni Dafydd Iwan a Pharti Eryri. Bore Sadwrn bwriedir cynnal gweithdai dawnsio gwerin ar gyfer plant yr ardal dan ofal nifer o hyfforddwyr profiadol i'w dilyn yn y prynhawn gan orymdaith o ddawnsiwr drwy strydoedd Caernarfon ac arddangosfa ddawnsio gwerin mewn man amlwg yn y dref. Nos Sadwrn llwyfennir cyngerdd yn Theatr Seilo, Caernarfon. Y prif artistiaid fydd Plethyn, a farnwyd yn brif grŵp gwerin Cymru gan ddarlennwyr y cylchgrawn 'Sgrech' yn ddiweddar. Yn ymddangos hefyd bydd Clychau'r Grug, y parti o ardal yr Eco, ac arweinydd y noson fydd Arwel Jones. Bewriedir hefyd wahodd enillwyr y cystadlaethau dawnsio a chanu gwerin o'r Eisteddfod Genedlaethol eleni i gwblhau rhestr artistiaid sy'n cynrychioli'r gorau ym myd Canu a Dawnsio gwerin a Cherdd Dant.

I gloi gweithgareddau'r penwythnos cynhelir Twmpath Dawns yng ngwesty'r Royal, Caernarfon i ddilyn y cyngerdd nos Sadwrn.

O SIAMBR SELWYN

Sôn am Ynys Môn wrth y plant 'roeddwn i, ac wedi gofyn iddyn' nhw wneud map o'r ynys, Dewi'n dod ata i gyda'r newydd syfrdanol – "Syr, ma' na dwll yng nghanol sir Fôn." Meddyliais am eiliad fod un o'r plant wedi rhoi pensel neu bren mesur drwy'r map ac wedi ei rwygo, ac 'roeddwn yn barod i ddweud y drefn. Ond na – 'doedd 'na ddim rhwyg ar gyfyl y map. Y 'twll' a welodd Dewi yng nghanol sir Fôn oedd glesni Llyn Alaw. Oedd 'roedd Dewi yn llygaid ei le. Be'di llyn ond twll wedi ei lenwi â dŵr ynte! Mae plant yn gweld ymhellach ac yn 'ddyfnach' na ni'r oedolion yn aml.

'Roedd hi'n garreg filltir eisteddfodol i mi dros y Pasg 'ma. Eisteddfod Bontnewydd oedd y 200fed eisteddfod i mi feirniadu adrodd ynddi. Mae'n fy nychryn i edrych yn ôl dros y blynyddoedd. Gwnes sym fach ac arswydais fwy. Dau gant o eisteddfodau, cyfartaledd o 6 o gystadlaethau (plant yn unig) ymhob eisteddfod, a dyweder fod yna gyfartaledd o 12 plentyn ymhob cystadleuaeth. Os ydy fy sym i yn iawn, 'rydw'i wedi gwrandao ar yn agos i 15,000 (o blant yn unig) yn adrodd, heb sôn am ieuenctid ac oedolion. Sobrwydd mawr.

Gyda llaw, cofiaf i mi orfod gwrandao ar 66 o blant mewn un gystadleuaeth yn un o 'Steddfodau Cylch yr Urdd ychydig flynyddoedd yn ôl; felly synnwn i ddim nad yw'r ffigur yn llawer iawn mwy na 15,000.

Wrth sylwi mewn sobrwydd ar y sym fach bersonol hon, yr hyn sy'n fy nychryn ydy, meddwl yn ddifrifol, pa sawl plentyn allan o'r pymtheg mil yna a gafodd gam gen i. Dwsinau reit siŵr, yn enwedig ym marn mamau a neiniau rhai o'r plant, ond gallaf sicrhau pob mam a nain drwy Gymru gyfan, os gwnês i gam ag unrhyw un o'ch anwyliad, mai nid yn fwriadol y gwnês i hynny.

Ydy, mae'r ffaith i mi gloriannu tua 15,000 o blant yn fy nychryn i.

Credaf i mi sôn o'r blaen am y modd y perswadiodd y diweddar Humphrey Williams, Pontrhythallt fi i fentro beirniadu am y tro cynta yn Eisteddfod Penisarwaun. Mynd ar gefn fy meic, ac fel y bu bron i mi droi'n ôl ger Pont Siarli. Diolchais droeon i Humphrey Williams am iddo fy mherswadio i fynd i Benisarwaun y noson honno, a phetawn wedi ildio i'r demtasiwn o droi'n ôl ger Pont Siarli, byddwn wedi cael colled amhrisiadwy. Oherwydd yn sgîl y 200 o eisteddfodau cefais y pleser o wrando ar dalentau gwerth i'w hadnabod ledled Cymru.

Ac os byw ac iach ar y noson cyn y canfed ffeinal am gwpan Lloegr, caf y fraint unwaith eto o feirniadu yn

'Steddfod Penisarwaun. Methu dathlu'r 200fed yno o dait eisteddfod. Biti, gyddai'n gyd-ddigwyddiad diddorol.

Gan fy mod i wedi sôn fwy neu lai am ffigurau y tro hwn, a chan i mi grybwyll y ganfed gêm am gwpan Lloegr, waeth i mi orffen drwy fynd i'r ffeinal ddim, a sôn am bethau diddorol ynglŷn ag un o'r gemau sy wedi rhoi cymaint o bleser i mi 'rioed.

Eleni 'roedd 507 o dimau wedi gwneud cais am gael ymuno yn y gystadleuaeth am gwpan Lloegr. Derbyniwyd 478 ohonynt. Pan gychwynnodd y gystadleuaeth yn 1871-71, dim ond 15 o dimau oedd â diddordeb mewn ennill y cwpan. Ond ymhen deng mlynedd (1883) 'roedd cant o dimau yn awyddus i gael y clod.

Nid yn Wembli, y chwaraewyd pob un o'r gemau. Mae'r gêm derfynol wedi cael ei chwarae ar unarddeg o wahanol feysydd.

Mae 'na ddau dîm sy' wedi cystadlu am y cwpan bob blwyddyn o'r cychwyn sef – Maidenhead a Marlow. Rhaid i bob tîm sy'n dymuno chwarae am y cwpan wneud cais a thalu 'ffi' o £20 cyn Ebrill Iaf, a rhaid i dimau o Gymru wneud cais cyn Mawrth 1. Gyda llaw, pum swllt oedd y ffi yn 1971. 1871 – can mlynedd? O ia, mae fy syms i'n iawn, oherwydd ni chwaraeid am y cwpan yn ystod blynyddoedd y rhyfel.

Arferai timau o'r Alban chwarae yn y gystadleuaeth o 1871-1887, ond ni chaniataodd Cymdeithas Pêl-droed yr Alban i dimau oddi yno gystadlu ar ôl hynny.

Mae tri thîm o'r Iwerddon wedi cystadlu hefyd sef Cliftonville yn 1887, Linfield yn flwyddyn ddilynol a Distillery yn 1890.

Fe ŵyr pob cefnogwr pêl-droed o Gymru am fuddugoliaeth Caerdydd dros Arsenal yn 1927. Ddwyllydd yn gynharach fe drechwyd Caerdydd gan Sheffield United 1-0.

Mae cyd-ddigwyddiad diddorol ynglŷn â Chaerdydd. Am dair

blynedd yn olynol (1956-58), cawsant eu paru i chwarae i ffwrdd yn Leeds yn y drydedd rownd. Enillodd Caerdydd bob gêm, a'r sgôr bob tro – 2-1.

Mae na 2 d8m wedi chwarae mewn 5 ffeinal, ac wedi ennill bob tro – sef y Wanderers ar y cychwyn a Spurs yn ddiweddarach.

Y sgôr fwy mewn ffeinal ydy Bristol Rovers 6 Sheffield Wednesday 1, ym 1890; Bury 6 a Derby County 0 yn 1903, a gêm enwog Stanley Mathews ym 1953, pan drechodd Blackpool, Bolton o 4 gôl i 3.

Sgôr fwy unrhyw rownd ydy Preston 26, Hyde 0 ym 1887. Sgoriwyd 6 gôl mewn 7 munud yn y gêm hon. Ac fe sgoriodd Ted Madougall 9 gôl pan drechodd Bournemouth, Margate yn y rownd gyntaf ym 1971.

Ar ôl helpu Bury i guro Derby yn 1903, gofynnodd George Ross, un o chwaraewyr Bury am fwy o gyflog. Caniatwyd hyn, ac fe godwyd ei gyflog o dri, i bedwar swllt yr wythnos.

Ym 1922 pan oedd Preston yn chwarae Huddersfield yn y ffeinal ar gae Chelsea (cyn symud i Wembli) 'roedd gôlgeidwad Presen yn gwisgo sbectols.

Y ffeinal gynta i gael ei darlledu oedd honno rhwng Arsenal a Chaerdydd yn 1927, a'r gynta i'w theledu oedd y gêm rhwng Sunderland a Preston yn 1937.

'Roedd llai na dwy fil yn gwylio'r ffeinal gynta' ar y Kennington Oval, rhwng y Wanderers a'r Royal Engineers ar Fawrth 16, 1872. Pam? Wely farn gyffredinol oedd fod y tal o swllt am fynd i'r cae braidd yn ddrud.

Y llynedd 'roedd y can mil arferol yn Wembli, ac fe gafwyd £729,000 wrth y giatiau, a'r prisiau? Wel, o £3.50 i £16.

Mae amryw o ffeithiau diddorol eraill am y gêm hon sy'n llewni Wembli bob blwyddyn – ond dyna ddiogn am y tro.

Ymddiheuraf am eich blino â ffigurau, ond cefais fy 'nenu rhywsut yn sgîl y ganfed gêm cwpan, a fy nau ganfed Steddfod innau, i sôn am y ddau beth sy' wedi rhoi y mwya' o bleser i mi ar hyd y blynyddoedd – sef steddfota a phêl-droed.

Beth am Nain? O wreslo ydi phetha hi ers blynyddoedd bellach. Mae'n cael hwyl arni hefyd yn ôl Taid.

Hwyl i chitha hefyd,
Selwyn.

PLAID CYMRU ETHOLAETH ARFON

Ym Mhwyllgor Etholaeth Arfon o Blaid Cymru a gynhaliwyd ym Mhorthmadog penderfynwyd yn unfrydol gndemnio'r Llywodraeth Doriaidd o godi 20 ceiniog ar alwyn o betrol yn eu cyllideb. Mae hyn yn mynd i amharu yn arw ar ardaloedd gwledig fel yn yr Etholaeth lle mae ceir preifat yn hanfodol. Mae cynnydd o'r raddfa yma ym mhris olew yn mynd i godi costau cludiant a hefyd torri mwy ar wasanaeth bwsiau, codi prisiau bwyd a'i gwneud yn fwy anodd i siopau bach gael dau ben llinyn ynghyd. Mae perygl y bydd Twristiaeth yn dioddef, diwydiant pwysig i gefn gwlad.

Mae'r Blaid yn Arfon yn bwriadu trefnu ymgyrch i dynnu sylw pobl Arfon a Dwyfor at godiad hollol afresymol yn rhenti Tai Cyngor sydd yn deillio o bolisi'r Llywodraeth.

Mae rhenti yn codi £4 yn Arfon a £3.70 yn Nwyfor. Dywedwyd gan amryw o gynrychiolwyr o'r 29 o Ganghennau yn yr Etholaeth fod codiad o 47 y cant yn mynd i wneud bywyd yn anodd iawn i

lawer o deuluoedd sydd eisoes ar gyflog isel. "Yn Arfon mae £3.60 yn godiad uniongyrchol gan y Llywodraeth" meddai'r Cynghorydd Talfryn Jones, Penygroes yn dod o leihad mewn grantiau i gynorthwyo Cynghorau gyda thai yng Nghymru a hefyd gyda lefel llogau uchel. Dywedodd y Cynghorydd Gareth Williams, Beddgelert, fod yn rhaid rhoddi gwybodaeth i'r cyhoedd mai polisi y Blaid Doriaidd yw'r codiad yma.

Mae'r Aelod Seneddol Dafydd Wigley eisoes wedi datgan ei farn yn ystod y mis, a dywedodd yn ystod y Cwestiynau Cymreig ar lawr y Tŷ ei bod yn hollol afresymol codi'r rhenti i'r fath lefel a'r Llywodraeth ar y llaw arall yn disgwyl i gyflogau godi ond 6 y cant.


CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

DYFODOL YR IAITH GYMRAEG

Bu cryn ddadlau yn ddiweddar, yn enwedig ar ddalenau'r Faner, am yr iaith Gymraeg - ei safle bresennol a'i dyfodol. Fel pe wedi rhagweld hyn, ymddangosodd erthygl 'Am y Gymraeg' ym mhapur Cymraeg yr Ariannin (a Phatagonia) - 'Y Drafod - El Mentor'. Ymddangosodd yr erthygl gyntaf ym 1947 yn 'Y Drafod', ac fe'i hail gyhoeddwyd eleni. Yr awdur yw'r diweddar Arthur Hughes, a'i deulu'n hanu o fro'r Eco. 'Roedd yn fab i'r Dr John Hughes (Jones), Tŷ Mawr, Clwtybont a Gwyneth Vaughan. Fe'i ganed yn Nhalsarnau, Meirion, ac ymfudodd i'r Wladfa. Merch iddo yw Irma Hughes de Jones, golygydd 'Y Drafod'.

Rydym yn dyfynnu ambell i baragraff o'r erthygl, yn enwedig y rhai sy'n berthnasol heddiw. Cofiwch mai ym 1947 yr ysgrifennwyd yr erthygl:

"Mater i'r bobl ifanc ei benderfynu ydyw a fydd yr iaith yn cael byw ar ein holau ni. Os oes ar y bobl ifanc ei heisiau; os bydd ganddynt ddigon o ddiddordeb ynddi, a digon o ewyllys, ni fydd i'r iaith farw."

"Y mae'r iaith wedi ei choethi a'i llyfnu yn rhagorol . . . ni fu hi erioed mewn cystal cyflwr, ac ni fu erioed o'r blaen gymaint o lenyddiaeth deilwng ynddi."

"Clwryi cwyno weithiau nad yw'r Gymraeg yn ddigon eang, nad oes ynddi eiriau at ein hangen heddiw. Camgymeriad yw hynny, a dengys ddiffyg medr i'w thrin. Y mae adnoddau'r iaith yn ddiderfyn. Dull y gweithiwr sâl o ymesgusodi ydyw cwyno ar ei arfau. Pe baem yn dysgu'r Gymraeg yn iawn, a dyfod i'w deall hi a'i theithi yn drwyadl, buan y gwelem nad oes le i weld bai arni, ond yn hytrach fel arall; y mae'r iaith Gymraeg yn un o'r ieithoedd changaf a mwyaf eglur yn y byd."

"Nid pryferthwch iaith sydd yn peri ei bod hi'n dal yn fyw. Egni'r bobl a fydd yn ei llefaru, eu diddordeb hwy ynddi, a'u hewyllys, dyna'r pethau sydd yn ei chynnal."

"Gall pawb, gan hynny, gadw y Gymraeg os yn dewis gwneud. Os na fydd y bobl yn gyffredinol yn deisw, daw yn iaith y cych bach . . . I'r ychydig a ewyllysiant ei choled, ni fydd y Gymraeg farw."

Cafwyd benthg y 'Drafod' gan Mr W.A. Jones, Y Dalar Deg, Llanrug, sy'n hanu o'r un teulu ag Arthur Hughes, sef teulu siop William Jones & Son. Ychydig iawn o'r hen deulu sy'n fyw heddiw yn ôl Mr Jones. Efallai fod rhai o drigolion Clwt y Bont yn cofio Arthur Hughes, mab hynaf Dr John Hughes (Jones). Byddem yn falch o dderbyn unrhyw atgofion am yr awdur hwn.

GWYLIAU LLAFUR - DDOE A HEDDIW 1892 - 1981

GWYL LAFUR
Dydd Llun, Mai 4, 1981
1 p.m. - 6 p.m.

12.30 p.m. - Gorymdaith i ymgynnull tu allan i John Edwards, Cash & Carry, Ffordd Caernarfon, Bangor.

2.00 p.m. - Cyfarfod Cyhoeddus, Clwb y Staff, Undeb y Myfyrwyr, Bangor. Cadeirydd: Glyn Owen.

Siaradwyr: Meirion Hughes (Ymgeisydd Llafur Gorllewin Fflint), Dafydd Elis Tomos (A.S. Meirionnydd) ac undebwyr llafur blaengar.

3 o'r gloch ymlaen - Ffilmiau, Stondinau, Arddangosfeydd, Grwpiau Theatr, Te a choffi, Cerddoriaeth.

Gofal plant ar gael.

Isod: Rhaglen yr Wyl Lafur gyntaf yng

Ngogledd Cymru a gynhaliwyd yn y Pafiliwn, Caernarfon. Trwyganiatâd Archifdy Gwynedd.

PAVILION, CAERNARFON.

GWYL & LLAFUR,

MAI 7fed, 1892.

LLYWYDD:

Cynghorwr W. J. PARRY, Y.H., Bethesda.

1. CANU ... "O, Arglwydd Dduw rhagluniaeth" (Arweinir gan Mr. J. W. THOMAS).
2. ANERCHIAD GAN Y LLYWYDD.
3. CYNNYG y Penderfyniad canlynol gan Mr. RICHARD GRIFFITH, Ffestiniog:—

Fod y Cyfarfod hwn o Chwarelwyr Ngogledd Cymru, a gynnelir yn Mhaviion Caernarfon, ddydd Sadwrn, Mai 7fed, 1892, er dathlu Gwyl Llafur, o'r farn fod cyflog y Chwarelwyr yn rhy isel, a'n bod yn cadarnhau y cais wnaed am ei godi i 5s. y dydd i Chwarelwyr ymarferol, a bod pob dosparth arall yn y Chwarel i dderbyn codiad yn y cyflog mewn cyfartaledd. Hefyd, fod cyfartaledd o wyth awr y dydd yn gymaint o waith ag a ellir yn rhesymol ei ofyn i ni ei wneyd.

4. CEFNOGIR y Penderfyniad gan Mr. ROBERT DAVIES, Bethesda.
5. ANERCHIAD GAN SYR JOHN E. GORST, A.S.
6. CANU "Duw mawr y rhyfeddodau maith."
7. CYNNYG y Penderfyniad canlynol gan Mr. W. ELIAS WILLIAMS, Dinorwic:—
Fod y Cyfarfod hwn yn taer erfyn ar y Senedd i wneyd brys i ddeddfu er gorfodi Meistri a Gweithwyr i ethol Byrddau Cyflafareddol yn nglyn â phob galwedigaeth, oherwydd achosir anghydweliadau yn fynych gan bethau cynharol ddibwys, y rhai a ellir yn rhwydd eu gochel pe byddai Byrddau Cyflafareddol i'w cymeryd i ystyriaeth. Rhoddai hyn fantais i'r Meistr a'r Gweithiwr ddyfod i ddeall eu gilydd ar faterion gweithfaol; a gochelid streics a chloadau allan, yn nghyda'r dinystr cyffredinol sydd yn cael ei achosi ganddynt.
8. CEFNOGIR y Penderfyniad gan Mr. W. THOMAS, Talysarn.
9. ANERCHIAD GAN W. ABRAHAM, YSW., A.S.
10. CYNNYG Penderfyniad ar Wyl Llafur gan Mr. H. H. DAVIES, Bethesda.
11. CEFNOGIR gan Mr. W. A. DAVIES, Llanberis.
12. CYNNYG Diolchiadau gan Mr. J. JENKINS, Ffestiniog.
13. CEFNOGIR gan Mr. F. W. FRANCIS, Dinorwic.
14. CANU "Hen Wlad fy Nhadau" (MABON yn arwain).

TREFN YR ORYMDAITH.

Yr holl Chwarelwyr i gyfarfod yn y Pavilion am Ddau o'r gloch. Ni bydd neb yn cael mynediad i fewn y pryd hwn na bydd yn gwisgo yr arwydd "Chwarelwyr. Gwyl Llafur 1892." Pob Cyfrinfa i fyned yn ol ei rhif. Bydd y rhif wedi ei osod ar ddrysau y Pavilion er mantais i bawb wybod pa le i fyned. Gorymdaith trwy y Dref gyda'r Seindyrff, bob yn bedwar ochr yn ochr, a dychwelir i'r Pavilion mor agos ag y gellir i Dri o'r gloch. Ni bydd neb yn cael myned i'r Pavilion hyd nes bydd yr orymdaith wedi myned i fewn. Ar ddiwedd y cyfarfod yn y Pavilion, eir yn orymdaith i'r Maes, lle y bydd yr holl Seindyrff yn chwareu "Gwyr Harlech" gyda'u gilydd, ac yno yr ymwahenir.

D.S.—Taer ddymuna Cynghor yr Undeb ar i'r holl Chwarelwyr ymddwyn yn deilwng o'u cymeriad adnabyddus yn ystod y dydd, a chymeryd gofal arbenig wrth fyned a dod gyda'r Trens.

ARGRAPHEDIG YN SWYDDFA'R 'HERALD,' CAERNARFON.

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

WAUNFAWR



SBONCYN – Mewn cystadleuaeth yn y comic Cymraeg, Sboncyn, enillodd Bethan Wyn, 6 oed, Y Frenni, Waunfawr, wats.

Roedd angen i'r cystadleuwyr roi geiriau yng ngheg Gari Gofodwr a Jac Do, ac allan o 500 a yrrodd i mewn, 'roedd Bethan yn un o'r 10 buddugol.

I ddathlu Sboncyn yn 1 oed ym mis Mai, bydd cystadleuaeth arall gyda dau ddarganfyddwr trysor (metal detectors) yn wobrau.

Mynnwch eich copi!

YR YSGOL – Mae rhai o blant yr ysgol yn cymryd rhan yn yr Ymgyrch Gwerthu Llyfrau Cymraeg eto eleni. Gobeithio y rhoddir cefnogaeth a chroeso gan bawb sy'n dymuno prynu llyfrau Cymraeg. Bu tîm pêl-droed yr ysgol ym Mhenisarwaun yn chwarae yn erbyn Ysgol Tan y Coed. Cyfartal oedd y canlyniad o un gôl yr un. Gan fod ei fab yn chwarae i Benisarwaun, yr oedd y prfathro yn eithaf bodlon!

Bore dydd Mawrth olaf y tymor cafwyd Gwasanaeth arbennig ar gyfer y Pasg gan y plant, wedi ei drefnu gan Mrs E. Eames. Yr oedd y Rheithor, y Parch Ganon Glyndwr Williams, a Mr Dafydd Iwan, Cadeirydd y Rheolwyr yn bresennol. Trwy Wyliau'r Pasg yr oedd y plant wrthi'n brysyr yn hel enwau cefnogwyr at yr Ymgyrch Noddi Tasgau. Y pwraps yw codi arian tuag at Gronfa'r Ysgol a rhoi cyfraniad tuag y Neuadd Bentrref newydd. Diolch yn fawr i'r rheini a llu cyfeillion am eu cefnogaeth.

PLAUD CYMRU – Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd rhwng canghennau Waunfawr, Bontnewydd a Rhostryfan ar Ebrill 3 i drefnu ymgyrch Mr Eirug Wyn ar gyfer etholiad y Cyngor Sir ar Fai 7. Etholwyd Mr Llion Roberts, Bontnewydd yn gynrychiolydd iddo.

NOSON CALAN MAI – Ar drothwy'r etholiad, cynhelir noson ym Mron Eryri, Llanberis (Nos Sadwrn, Mai 2) sy'n agored i'r tair cangen uchod. Bydd bwyd-mewn-basged ar gael, a bydd yr adloniant yng ngofal 'Teulu Hafod-y-Gân' o Glwyd. Tocynnau oddi wrth D. Iwan (Waunfawr 421). Dymunir bob llwyddiant i Eurig yn yr etholiad.



Yn y llun, o'r chwith i'r dde: Rhes ôl: Gillian Wyn (Cynhyrchydd), Rhian Ellis, Alma Jones, Beryl Jones a Cadi Jones. Rhes flaen: Nan Huws Roberts, Catherine Jones a Carys Owen.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Mawrth 26, o dan lywyddiaeth Mrs Mary Vaughan Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Hughes, Gwastadfaes ac fe'i enillwyd gan Mrs Nan Huws Roberts. Yn gofalu am y te 'roedd Mrs Mary Austen Jones a Mrs Hughes, Gwastadfaes. Diolchodd Mrs Glenys Williams i'r merched a'n diddorodd gyda'u perfformiad o ddrama fer gan Rhiannon Parry, Sef 'Modryb'. Hoffai'r cwmni bwysleisio mai ymarfer ydoedd yn unig ar gyfer ein hymwelid â changen Caernarfon nos lau, Ebrill 9. 'Roedd pawb wedi mwynhau'r noson ac yn edrych ymlaen at ein noson allan yng Nghaernarfon.

'Roedd y cwmni yn cynnwys Nan Huws Roberts, Catherine Jones, Beryl Jones, Rhian Ellis, Cadi Jones, Alma Jones a Carys Owen. Fe'i cynhyrchwyd gan Gillian Wyn.

(Gweler llun y cwmni isod)

Cawsom lawer o hwyl yng Nghaernarfon nos lau, Ebrill 9, ac fe roddodd y cwmni drama berfformiad gwyh unwaith eto. Diolch i gangen Caernarfon am ein gwahodd yno, ac am y bwyd a drefnwyd ar ein cyfer.

Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Mai 28 yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 o'r gloch. Noson o arddangos a thrafod ein gwahanol ddiddordebau fydd hi-gwnïo, addurno cacennau, llenydd, gweu ac yn y blaen. Os oes gennych chi unrhyw ddawn neilltuol, dewch â rhywbeth o'ch gwaith llaw yno atom.

LLWYDDIANT – Da yw gweld bod rhai o blant y pentref, sef Llion, Rhian, Adrian, Wayne ac Iona wedi sefyll Arholiad ysgrifenedig yr Ysgol Sul. Llwyddodd Llion a Rhian i gael eu gwobrwo yn y Gymanfa Ganu sydd i'w chynnal yng Nghapel Siloam, Bontnewydd ar Fai 3. Da iawn chi blant.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Ebrill 2. Dymunodd Mrs C.A. Jones, y llywydd, adferiad buan i Mrs Morley Williams ac i Mrs Griffith, Bronallt. Croesawodd Mrs Buddug Rowlands yn ôl ar ôl ei gwaeledd a Mrs Southworth yn ôl ar ôl ei damwain. Darllenwyd y cofnodion o'r mis blaenorol ac fe'i harwyddwyd gan y llywydd. Darllenwyd a thrafodwyd y materion yn y llythyr misol. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr John Hughes o Gaernarfon ar 'Straeon Hen Blismon'. Diolchodd Mrs Buddug Rowlands iddo. Enillodd Mrs C.A. Jones y raffl a roddwyd gan Mrs Lloyd Williams. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau, Mai 7, yn Neuadd yr Eglwys pan fydd yr ymwelydd gwirfoddol yn trafod y Penderfyniadau yn y Cyfarfod Blynnyddol yn Llundain.

CLWB GWYRFAL – Bydd Ffair

Wanwyn y clwb yn cael ei chynnal yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Mai 8 gyda gwahanol stondinau, a bydd y pwyllgor yn ddiolchgar iawn o dderbyn unrhyw beth ar ei chyfer. Estynnir croeso i bawb.

DEWIS BRENHINES Y CARNIFAL A'I GOSGORDD – Cynhaliwyd noson llwyddiannus o feimio gan dimau lleol o dan ofal Normal Williams yn Neuadd yr Eglwys, nos Wener, Mawrth 20. Tîm Caeathro ddaeth yn fuddugol sef Deiniol Hughes, Ifor Hughes a Haydn Jones. Diolch i dimau Waunfawr a Betws Garmon am gystadleuaeth hwyliog. Rhoddwyd y diolchiadau gan lywydd y noson, Iris Owen. Enillwyd y raffl gan Mrs Evans, Gwalia Garage, Caeathro.

Yn ystod y noson dewiswyd Brenhines y Carnifal a'i Gosgordd am y flwyddyn 1981 gan y Frenhines Lynne, a dyma'r canlyniadau: Brenhines: Wendy Davis; Morwyn: Tina Parry; Blodeuferch: Karen Wyn Bound; Gwas y Llys: Martin Beech. Llongyfarchiadau i'r pedwar ohonynt!



YR URDD – Ar Fawrth 11 daeth Sargeant Bevan ynghyd â swyddog atal drwgweithredwyr i sgwrsio efo'r adran a dangoswyd ffilm ddiddorol. Ar Fawrth 18 trefnwyd ymweliad â gorsaf y frigad dân yng Nghaernarfon, lle y cafwyd gwybodaeth ddiddorol a defnyddiol.

Ar Fawrth 25, cafwyd perfformiad o'r ddrama 'Modryb' gan gwmni drama Merched y Wawr. Daeth y tymor i ben ar Ebrill 1, efo disgo yn yr ysgol. Trefnir taith gerdded yn fuan a chyhoeddir y manylion cyn hir.

PWYLLGOR Y GANOLFAN – Mae Pwyllgor Canolfan Waunfawr erbyn hyn wedi cwblhau paratoi taflen a gaiff ei chyhoeddi cyn diwedd Mai yn amlinellu cynlluniau'r Ganolfan ac yn esbonio'r dulliau codi arian. Cyflwynir y daflen i bob cartref yn Waunfawr, Ceunant a Betws Garmon. Bydd slipiau'r Clwb 300 yn cael eu dosbarthu gyda'r daflen. Cyhoeddir lluniau hen fws a lori Mr Humphrey Roberts, Rhos Goch yn y daflen, gan ei fod yn garedig iawn yn benthyca'r cerbydau i'r pwyllgor i fynd ar daith nodedig i Lundain i godi arian. Bydd beirdd amlwg o'r pentref, – T.H. Williams, Rol Williams a Dafydd Iwan hefyd yn cyhoeddi cerddi yn y daflen i hybu'r ymgyrch. Mae Glenys Williams Ty'n y Weirglodd wedi cydsynio i ymuno gyda'r pwyllgor i gynrychioli Betws Garmon. Cynhelir y cydbwyllgor nesaf pan fydd Shell, Leyland ac ati wedi ymateb i'r cais am eu nawdd ariannol i'r daith i Lundain.

MARWOLAETH – Bu marwolaeth anamserol Gareth Rees Roberts, Pant Afon, yn arswyd i'r ardal gyfan ac mae'r pentref, yn amlwg, yn dangos eu cydymdeimlad dwysaf i Nan ei wraig, a'i phlant bach, Sioned a Geraint, yn eu colled ddychrynlyd o golli gŵr a thad ifanc.

Cydymdeimlwn hefyd â'i fam a'r

teulu oll yn eu colled.

LLONGYFARCHIADAU – I Mr a Mrs John Elwyn Roberts, 24 Bro Waun ar ddathlu eu priodas arian.

I Mrs Helen Jones, Dôl Erddi am fod yn nain – ganwyd merch i Judith.

I Iorwerth Williams, Heli, ar gael swydd fel athro yn Llundain.

I Nia Pritchard, Min-y-Grug, a Michael Hanlon, Bryn Eirian ar eu dyweddiad.

Hefyd i'r rhai a fu yn llwyddiannus gyda'u harholiadau cerddorol, sef Bethan Pritchard, Geoffrey Michell, Joyce Benham, Sian Lloyd Jones, Suzanne Woods, Karen Roberts, Alan Benham, Penny Walters, Sian Davies, Joanna Maiston, ac Anthony Marston, i gyd wedi eu hyfforddi gan Mrs Ann Marston, Blaen y Nant.

CYDYMDEIMLWN – Â Mr George Grindey, Cartrefle, 14 Stad Tŷ Hen ar golli ei dad a'i fam o fewn wythnos i'w gilydd.

YN YR YSBYTY – Drwg gennym glywed fod Mrs Griffiths, Bronallt, unwaith eto yn yr ysbty. Dymunwn wellhad buan iddi.

ADREF O'R YSBYTY – Croeso adref i Delyth Jones, Cynant Lodge, Fflyr Llywelen, Tref Eilian, Mrs Phyllis Jones, Rhoslan, Mr Hugh Elfed Roberts, Bryn Golau, Mrs Morley Williams, Fronelwy, Mrs J. Elwyn Roberts, Bro Waun, Mr Griffith, Bodlondeb a Mrs Arianwen Thomas, Bro Waun. Gobeithio eu bod yn dal i wella.

HCYFARFOD CYSTADLEUOL – I blant Capel Bethel a'r Gobeithlu. Nos Wener, Ebrill 3 yn Ffestri Capel Bethel cynhaliwyd cyfarfod cystadleuol gan blant Ysgol Sul Bethel a'r Gobeithlu. Beirniad Cerdd oedd Mrs Betty Williams, Pontllyfni a'r Beirniad Adrodd a Llên oedd Mr W.G. Owen, Pwlllelli. Arweiniwyd y noson yn ardderchog gan Miss Marilyn Roberts, a rhoddwyd y diolchiadau gan Mr Eric Jones.

Y canlyniadau fel a ganlyn:

CANU, Dan 5: 1. Elin; 2. Meilir, Delyth ac Eilir; 3. Ceirion; 4. Geraint, Gavin, Anwen, Llio a Heddus. 5-7: 1. Alaw; 2. Osian, 3. af. 7-9: 1. Ella; 2. Telor; 3. Sioned, Dylan, Gwenan, Nia; 4. Neil a Gareth. 9-11: 1. Nan a Sandra; 2. Karen a Sian; 3. Wayne ac Ellyw; 4. Adrian Michael a Sian. 11-13: 1. Penny; 2. Huw.

Deuawd dan 14: 1. Sandra a Sian; 2. Sandra ac Elin, Michael a Penny; 3. Sian ac Adrian.

Parti unsain: 1. Parti Gwenan.

Unrhyw offeryn chwyth dan 14: 1. Huw a Sian; 2. Wayne; 3. Karen a Telor; 4. Penny, Helen ac Ellyw.

Canu piano dan 14: 1. Penny a Karen; 2. Huw; 3. Nan, Sian ac Ellyw.

Canu piano dan 14: 1. Penny a Karen; 2. Huw; 3. Nan, Sian ac Ellyw.

ADRODD, Dan 5: 1. Delyth; 2. Meilir; 3. Ceirion ac Anwen; 4. Elin, Gavin, Eilir, Llio, Heddus a Geraint. 5-7: 1. Osian; 2. Alaw. 7-9: 1. Ella; 2. Gwennan; 3. Sioned; 4. Neil; 5. Gareth a Nia. 9-11: 1. Adrian; 2. Sian; 3. Nan; 4. Wayne. 11-13: 1. Penny a Huw. Côr adrodd dan 12: 1. Parti Ellyw; 2. Parti Sandra; 3. Parti Adrian. **MAES LLAFUR**, Dan 9: 1. Sioned. 9-11: 1. Huw, 2. Gareth; 3. Adrian. 11-14: 1. Rhian.

Ysgrif: dan 9: 1. Telor; 2. Gwennan; 3. Nia a Mandy; 4. Neil. 9-12: 1. Helen; 2. Sian a Huw; 3. Karen. 12-16: 1. Rhian; 2. Gwen.

Arlunio, dan 6: 1. Alaw, 2. Elin; 3. Rhodri; 4. Meilir, Delyth, Ceirion, Geraint ac Eilir. Dan 8: 1. Telor, 2. Osian; 3. Ella; 4. Nia, Neil, Rhys, Sioned, Mandy, Awen, Gwennan, Haf a Dylan. Dan 10: 1. Karen a Helen; 2. Ellyw ac Wayne; 3. Sandra, Colin, Michael a Tina. Dan 12: 1. Adrian; 2. Sian; 3. Iona; 4. Penny. Dan 16: 1. Rhian.

Llawer o ddiolch i'r ysgrifennydd, Mrs Meira Thomas, am ei gwaith caled yn sicrhau llwyddiant y noson.

DEINIOLEN

YN GWELLA – Rydym yn falch o weld Anwen, merch ieuengaf Mr a Mrs W. Hughes, Gwyndy, Rhiwen wedi gwella ar ôl ei damwain.

LLONGYFARCHIADAU – Malcolm Allen ar gael ei ddewis yn aelod o dîm pêl-droed dan 15 oed Ysgolion Gogledd Cymru.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Donald Jones, 2 View Terrace, ddiolch o galon am bob caredigrwydd a gafodd Dylan tro bu yn ysbyty Dewi Sant, Bangor ac wedi dod adref. Diolch am yr holl haelioni a'r dymuniadau da a gafodd.

PLAID CYMRU – Cafwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen yn stafell y seindorf nos Lun, Mawrth 30. Penderfynwyd ysgrifennu at Swyddog Iechyd Arfon i ddatgan pryder ynglŷn â'r ffaith nad yw ysbwriel yn cael ei gasglu'n gyson.

Dewiswyd Mrs Susan Skillicorn a Miss Mair Rees Jones i gynrychioli'r gangen ym mhwyllgor etholaeth y Blaid ym Mhwlheli ar Ebrill 3. Enillwyr Clwb Cant mis Chwefror: rhif 54 – £15, Mrs Dilys Hughes, Ty'n y Weirglodd. Rhif 109: £10, Mr Dafydd Williams, 20 Pentre Helen. Enillwyr mis Mawrth, rhif 5: £15, Mr John Leech Penygolwg, rhif 89: £10. Kevin Jones, 24 Hafod Olau.

DYMUNWN YN DDA – I Miss Prisi Roberts, 1 Rhydfadog a'i chwaer Mrs Katie Jones ar ymudo i'w cartref newydd ym Bangor.

PRIODAS – Ar ddydd Sadwrn y Pasg Ebrill 18, priodwyd Lynda Owen, Pen-y-Bwlch, Mynydd Llandegai, merch hynaf Mr a Mrs Leslie Owen, â Mr Gwyn Owen, Penrhiw, Bethesda yn Eglwys Llandinorwig. Gwasanaethwyd gan y Canon Glyndwr Williams, Caernarfon. Dymunwn yn dda i'r pâr ifanc yn eu bywyd priodasol.

DIOLCH – Dymuna Linda a Gwyn ddiolch i'w teulu a'u llu cyfeillion am yr anrhegion gwerthfawr a dderbyniasant. Diolch i bawb.

MARW – Drwg oedd gennym glywed fel ardalwyr am farwolaeth Mrs Ella Williams, 13 New Street, ar ôl gwaeledd hir. Cydymdeimlwn â'i phriod a'r teulu yn eu profedigaeth.

BALCH YDYM – O ddeall bod Miss Eleanor Jones, Tai Marian, wedi dychwelyd adref o Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Dymunwn wellhad buan iddi.

CYFARFOD ELUSENOL – Yn Ysgol Gwaun Gynfi, nos Wener, Ebrill 10 gyda Chôr Meibion Hogia'r Garnedd, Bethesda dan arweiniad Mrs Roberts, Bethesda, ac enwogion y cylch, sef soprano, Mrs Lona Lewis, Rhydfadog; gydag Einir Wyn Lewis ac Yvonne Jones yn canu. Wrth y piano oedd Mrs Helen Lewis, Deiniolen. 'Roedd y cyngerdd er

budd Cronfa Goffa Debbie Louise, Moelfre, sir Fôn. Gwnaethpwyd elw o £90.52 ar y noson. Canodd y Côr Meibion yn y Bull, Deiniolen ar ôl y cyfarfod a chafwyd casgliad o £16.25 yno.

Enillydd y raffl oedd rhif 961 a 965, Olwen, Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Diolchwyd ar ran y Pwyllgor gan Mr Alun Wyn Evans, Pentre Helen, i bawb a gymerodd ran yn rhad ac am ddim. Mae'r elw yn mynd tuag at Ymchwil Clefyd yr Iau – clefyd sydd yn effeithio ar un plentyn allan o bob 17,000 sydd yn cael eu geni yng Ngwledydd Prydain.

MERCHED Y WAWR – Cyfarfu'r gangen yn Ysgol Gwaun Gynfi, nos Lun, Ebrill 13. Yn absenoldeb y llywydd, Mrs Megan Morris oherwydd gwaeledd, llywyddwyd y cyfarfod yn ddeheuig iawn gan Miss Kathleen Jones. Anfonwyd cyfarchion y gangen at yr holl aelodau sy'n cwyno, yn arbennig iawn at Mrs Gwladys Jones ar fod yn nain unwaith eto, ac estynnwyd croeso arbennig i Mrs Hughes, Tai Caradog wedi absenoldeb hir o'r cyfarfodydd. Diolchwyd i Dilys a Gwen am gefnogi'r gangen yn Ffair Wanwyn y Rhanbarth yng Nghaernarfon, Ebrill 11. Yn yr ail hanner o'r cyfarfod croesawyd Mrs Ruth Williams o Fethel i arddangos sut y mae coluro yn iawn. Cafwyd noson arbennig o ddiddorol gyda Mrs Margaret Roberts yn fodel. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Helen Sutherland. Y gwestwagedd oedd Mrs J.C. Hughes, Mrs Davies a Mrs Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Margaret Roberts, Porth-y-gogledd. Edrychir ymlaen at y cyfarfod nesaf ar Fai 18 pryd y trafodir y Gynhadledd yn Aberystwyth. Bydd bwrdd gweithu yn y cyfarfod nesaf.

CROESO A DIOLCH – I'n gohebydd newydd yn Neiniolen – Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen (Ffôn: Llanberis 267). Mae Mrs Rowlands eisoes wedi dechrau cysylltu â chlybiau, cymdeithasau ac yn y blaen. Ond er mwyn iddi allu gwneud ei gwaith yn effeithiol rhaid i chwithau, bobl Deiniolen, gysylltu â hithau hefyd.

Hoffwn ddilch eto i Mrs Meirion Jones, Clwt y bont am ei waith di-flino dros yr Eco yn y cylch.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

PLANT BETHEL YN COFIO W.J. GRUFFYDD



Plant safon 3 ysgol Bethel o amgylch bedd W.J. Gruffydd ym mynwent Llanddeiniolen. A hithau'n ganmlwyddiant geni W.J. Gruffydd bu'r plant yn gwneud astudiaeth arbennig ohono. (Lluniau: I.L. Jones)

TYWYDD TYMHOROL!!



Golygfa yng ngardd ffotograffydd yr Eco wythnos yn ôl.

PWYLLGOR DYSGWYR MERCHED Y WAWR, ARFON


Trefnwyd noson o hwyl a chân i ddysgwyr Arfon yn yr Aelwyd Caernarfon ar nos Fercher, Mai 15. Daeth tipyn ynghyd gan gynnwys aelodau o ddosbarthiadau Mrs Ann Jones sy'n ymgynnull yn Ysgol Brynrefail a Mrs Gweneiris Jones, Waunfawr.

Trefnwyd dawnsio gwerin a chaneuon ysgafn ar gyfer y dysgwyr a lluniaeth ysgafn i dorri syched ar ôl y dawnsio gwyllt.

Cafwyd digonedd o hwyl, a diolch i bawb a fu wrthi'n paratoi.

Waunfawr – tŷ pâr modern mewn safle ardderchog yng nghanol y pentref. Tair llofft, ystafell ymolchi, tŷ bach, cegin hwylus, lolfa eang, cyntedd, garej, gardd. Bargen £16,950. Ffôn: Waunfawr 626 neu Llanwnda 830698.

CYSYLLTIADAU



Diolch i Mr Aled Jones, Hafod, Gaerwen, Ynys Môn am y llun yma. Ar un o'i deithiau o amgylch y byd daeth ar draws ardal yn yr America a chysylltiadau cryf iawn â Chymru.

Dyma oedd yr arwyddbost i Steuben Grant yn yr UDA. 'Welsh Immigrants. Beginning 1795, cleared and settled greater part of Steuben Grant. Built first church here 1804.'

Yn y llun chwith gweler carreg fedd John Davies, brodor o'r Waunfawr a gladdwyd ym mynwent Steuben Grant at Fedi 23, 1855.

Oes teulu ar ôl yn y Waun ysgwn i?

TRADDODIAD A CHOEL

gan 'Yr Hen Dderwydd'

Dair blynedd yn ôl y daeth Gŵyl Fai yn Wyl Gyhoeddus unwaith eto ym Mhrydain. Er mai ar y dydd cyntaf o Fai y dylai'r Wyl gael ei chynnal, erbyn heddiw, y Llun cyntaf ym mis Mai fydd yr ŵyl. (Dim ond dair gwaith y bydd Mai 1af yn ddydd Llun o hyn hyd ddiwedd y ganrif.)

Cafodd yr ŵyl ei dathlu'n swyddogol am y tro cyntaf yn Rhufain tua 175C.C. sef Gŵyl Glorialia i glodfori duw ffrwythlondeb a chychwyn tymor yr haf. Ymledodd y dathlu i Brydain, ac yma y ganed traddodiad y 'maypole'. Yng Nghymru fe'i gelwid yn 'Fedwen Haf' neu'n 'Gangen Haf', ac y mae cyfeiriad at ddawnsio a dathlu o'i chwmpas mor gynnar â 1344 yn un o gywyddau Gruffydd ab Adda.

Ym 1644, yn ystod teyrnasiad Cromwell, gwnaethpwyd y 'Fedwen Haf' yn anghyfreithlon oherwydd mai sumbol o ysgafndra oedd. Bu'n rhaid tynnu pob un i lawr, ond o fewn 15 mlynedd 'roedd y gyfraith wedi ei newid, ac mae'r 'Fedwen Haf' wedi aros hyd heddiw. Nid yw mor gyffredin yng Nghymru ag mewn rhannau o Loegr - Dwyrain sir Ddinbych, sir Fflint a siroedd y gororau oedd yn amlwg yn eu dathliadau.

Eleni, y Fedwen Haf fywaf fydd yr un ym mhentref Barwick, ger Elmet, swydd Efrog. Bydd angen 160 o ddynion i gario'r Fedwen Haf, sydd yn 98 troedfedd o uchder. Yn ystod y dathliadau, bydd un gŵr dewr yn dringo i ben y 'Fedwen Haf'.

Onid pa ddefnydd sydd i Fedwen Haf ar ôl y dydd gŵyl tybed? Wel, yn 1718 prynodd Sir Isaac Newton hen Fedwen haf 134 troedfedd o hyd i ddal un o'r amrywiol delisgôps oedd ganddo!

Erbyn heddiw, wrth gwrs, mae Gŵyl Fai yn cael ei dathlu'n ryng-genedlaethol fel dydd Gŵyl Lafur - syniad sy'n deillio o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ynglŷn â'r angen i gael un diwrnod bob blwyddyn i ddangos undod y gweithwyr. Fe'i mabwysiadwyd yn swyddogol ym 1889 pan gynhaliwyd cyfarfod gan William Morris ym Mharis i fynegi'r farn y dylai gweithwyr hawlio diwrnod gwaith o wyth awr yn unig.

Dyma'r dyddiad mewn llawer rhan o Brydain pryd y câi'r anifeiliaid eu symud o'r Hendre i borfeydd yr Hafod am yr haf. Yn aml iawn, 'roedd tenantiaeth ffermydd yn darfod ar Ddydd Calanmai ac yr oedd gweision a morynion ffermydd hefyd yn cael eu cyflogi tua'r un amser yn y gwahanol Ffeiriau Cyflogi ar hyd a lled y wlad.

Nid rhyfedd felly i'r Wyl Lafur gael ei dathlu ar ddydd oedd yn gyforiog o wahanol draddodiadau i'r gweithiwr cyffredin a'r llafurwr.

PONC CALIFFORI CHWAREL DINORW



Gweithwyr Ponc California, Dinorwig yn 1925. Llun trwy garedigrwydd Eric Morris, Tan-y-Coed.

"CWSPAN LLOYD GEORGE."

Dyma lun cwpan a gyflwynwyd i Miss B. Williams, Glan Padarn, Llanrug. Er mai ym mro'r Eco y bu'n byw am y rhan helaethaf o'i hoes, fe'i ganed ym Mhontypridd, ac yno y derbyniodd y cwpan. Dyma'r hyn sydd wedi ei ysgrifennu ar y cwpan:

'Cyflwynedig i Buddug Llwydwen Williams gan Huw T. Richards, C.D. er coffhau Dechreuad Buddiannau Man Dâl Deddf Yswirio 1911. - Pontypridd, Ionawr 13eg, 1913.'

Cwpan arian ydyw, tua 3 modfedd o uchel, ac fe'i gelwir yn 'gwpan Lloyd George'. I'r rhai ohonoch a fu'n dilyn y rhaglen ar BBC2 am Lloyd George a'i

gyfnod, mae'n amlwg i'r cwpan gael ei gyflwyno i gofio Deddf Yswirio Lloyd George pan oedd yn Ganghellor y Trysorlys. Nid yw Miss Williams yn siŵr pam y cyflwynwyd y cwpan ddwy flynedd yn ddiweddarach, ac nid yw'n siŵr chwaith a gafodd holl blant Pontypridd gwpan tebyg. Oes rhywun arall all roi goleuni ar bethau?



ENWAU OS GWELWCH YN DDA



Pwy fedr enwi cantorion operetta 'The Wishing Cap' o ysgol Dolbadarn Llanberis 1912.

Diolch i Mrs Margaret Williams, Nant Forgan, Cwm y Glo am y llun.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG**

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981



**BECWS
DEINIOLLEN**

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

... O'R HEN FEIBL TEULUAIDD



Wrth edrych yn hen Feibl ei thaid yn ddiweddar, daeth Mrs L. Jones, 21 Ffordd Tŷ Du, Llanberis ar draws ysgrif fer wedi ei hysgrifennu am ei diweddar ewythr, sef Nathan Williams, gynt o Lanrug a Brynrefail. Brodor o'r Fali, Sir Fôn oedd Evan Williams, taid Mrs Jones, a daeth i fyw i'r ardal hon tua diwedd y ganrif ddiwethaf pan briododd â merch o'r enw Eln Jones o fferm y Buarthau, rhwng Pontrug a Phrysgol.

Mae gan Mrs Jones frith gof o'i nain, sef Ellen Williams: cofio mynd o gwmpas y caeau yn Buarthau i gasglu dail llysiau. Byddai'r hen wraig yn defnyddio'r dail hyn i wneud eli i wella clwyfau ar goesau, ac yn rhannu'r eli lliw melyn i wragedd yr ardal mewn poteli bychan.

'Roedd Ellen Williams yn gantores dda iawn yn ei dydd, ac yr oedd hi a'i dau blentyn – Nathan a Catherine (sef mam Mrs Jones) – yn aelodau selog o gôr eglwys Llanrug. 'Roedd Evan Williams yntau'n aelod eglwysig, a bu'n Warden eglwys yn Llanrug am tua deugain mlynedd.

Pan briododd Catherine, symudodd i fyw i Lodge Glangwna, ac yno y magwyd Mrs Jones. Wedi i Ellen Williams farw, (tua 1925) aeth ei gwedd, Evan Williams i fyw gyda'i ferch a'i theulu, a phan fu ef farw dros ei bedwar ugain oed yn 1947, daeth y Beibl i feddiant Mrs Jones.

Pan briododd Nathan, symudodd yn gyntaf i Hermon Terrace, Llanrug, i fyw (drws nesaf i hen siop Mametz), ac yn ddiweddarach i Dinorwig House, Brynrefail. Yno, ffurfiodd barti i gynnal cyngherddau elusennol – 'Parti o'r Bryn'. Mae Mrs Jones yn cofio dau arall oedd yn aelodau o'r parti – Myfanwy o'r Bryn ac Evan Jones, Trostryafon, Brynrefail. Bu farw Nathan Williams yn ŵr ifanc yn 1937, ac y mae'r ysgrif yn y Beibl teuluaidd yn amlwg wedi ei hysgrifennu yn fuan ar ôl ei farw. Dyma'r ysgrif yn gyflawn; gyda'r dyddiad Medi 10ed, 1937 arni:



Nathan Williams, Llanrug a Brynrefail, arweinydd Parti o'r Bryn.

"Y mae gennym heddiw y gorchwyl pruddaidd o gofnodi marwolaeth ein horganydd medrus a ffyddlawn, Mr Nathan Williams, Dinorwig House, Brynrefail. Tarawyd ef yn wael ym mis Chwefror diwethaf, a dioddefodd gystudd blin a chaled yn dawl hyd ddydd Mercher y laf cyfisol; pan ei galwyd adref yn yr oedran cynnar o 47. Yr oedd yn llawn o gerddoriaeth, ac wedi cyfeilio i gerddorion enwog yn ein dydd. Ond yn Eglwys y Plwyf yr oedd amlycaf lle y llanwodd y swydd o organydd yn ffyddlon am 33 mlynedd. Deuai daith agos i dair milltir bob bore a hwyr y Sul, trwy bob tywydd at yr Organ – oedd wedi ymbriodi â hi.

Dyn ieuanc aeddfed a chadarn ei farn ydoedd ar bwyllgor, a chai ei ddywediadau pwylllog wrandawriad bob amser. Yr oedd yn aelod selog o bwyllgor Gŵyl Eryri, ac ni fynnai golli yr un o'r gwyliau.

Yn ei afiechyd blin ac ar ei wely angau, cerddoriaeth oedd ei gysur, ac ehedodd ei ysbryd i'r Cartref Dedwydd yn swm yr emwyn



Evan Williams, Buarthau, warden eglwys Llanrug.

"Paradwys, O Baradwys Wen." Ddydd Sadwrn diwethaf daeth torf fawr i dalu y gymwynas olaf i'r brawd hoffus. Gweinyddwyd wrth y tŷ gan y Rheithor, a'r Parch R. Williams (MC, ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Rheithor, a'r Parch J. Daron Jones. Ymhlith yr amryw blethdyrch yr oedd un oddi wrth Elliott Alves Ysw. Y.H. ac un oddi wrth ei gyd-gymunwyr yn Eglwys y plwyf. Y mae ein cydymdeimlad dyfnaf â'r weddw a'r plant yn eu profedigaeth lem; â'i dad oeddrannus, ac â'i unig chwaer.

'Gorffwysed yn y llennyrch teg
Lle mae y dyrfa fawr
Yn y goleuni gwiw
Yn ddisglair fel y wawr
Ym Mhresenoldeb Duw.'

Y nos Sul dilynol cynhaliwyd gwasanaeth coffa i'r gwas ffyddlon yn Eglwys y plwyf. Canfwyd rhai o'i hoff emynau a chyfeiriodd y Rheithor at y golled a'r chwithdod o weled ei sedd yn wag. Yr oedd yn un y gellid dibynnu arno bob amser, a'i bleser yn y cysegr. Bydd ei goffadwriaeth yn fendigedig, a gwynfyd na chaem fwy cyffelyb iddo."

Byddai'n ddiddorol cael gwybod mwy am gyfeiriadau yn yr erthygl hon: oes rhywun yn gwybod hanes Ellen Williams a'i meddyginiaethau cartref? Beth am hanes 'Parti o'r Bryn'? Beth oedd 'Gŵyl Eryri'?



Ellen Williams o flaen drws ei chartref yn y Buarthau. Roedd yn gantores enwog yn ei dydd a hefyd yn gwneud meddyginiaethau cartref.

DATGANIAD GAN Y DRAENOG MAO

Clywed cwynion yn ddiweddar gan gyfaill o ddraenog fod arogleuon Chop Suey; Foo Yeung a rhagor o fwydydd o Tseina yn dod o gyffiniau Llys y Gwynt, Pensia'rwaun. Clywed yr un pryd fod Llywodraeth Tseina yn ystyried agor swyddfa yn Llys y Gwynt. Hyn i gyd yn dilyn cyfarfod cyfrinachol iawn yn un o orsafoedd y 'Tiwb' yn Llundain rhwng Swyddog uchel o Heddlu Cudd Tseina â dirprwyaeth o ferched Penisar'waun. Deallwn fod yr M16 wedi recordio'r sgwrs ond yn methu deall y côd. Yn ôl yr hyn a glywais gan gyfaill arall o ddraenog sydd yn byw yn Llundain, mae Pennaeth yr M16 yn cerdded o gwmpas mewn penbleth yn gofyn i bawb, "Be' ddiawl 'di ystyr 'We spleak two splokes' "



Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

BETHEL

DIOLCH – Dymuna Ann Hopcyn, Gorffwysfa ddiolch o galon i aelodau Côr Saron am y blodau a dderbyniodd.

LLONGYFARCHIADAU – I Carys a Mansel Williams, Hafod Elen ar enedigaeth mab, Gary Pierce.

I Mr a Mrs Jones, Tyddyn Oer ar enedigaeth mab, Gareth Pierce.

I Miriam ac Emlyn Thomas, Osborne House ar enedigaeth mab, Dylan.

SNWCER – Llongyfarchiadau i'r tîm swncer ar gyrraedd y rownd derfynol cwpan y gynghrair ym Mhenygroes. Yn anffodus colli fu eu hanes o 5 ffrâm i un yn erbyn tîm NALGO Arfon.

MERCHED Y WAWR – Ar Ebrill 8 cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Mrs Gweneirys Jones, y Waunfawr yn dangos ei chreffft yn sychu blodau. Llywyddwyd y noson gan Madge Williams. Rhoddwyd y diolchiadau gan Alys Jones. Gwestwagedd y mis oedd Miss Katie Morris, Mrs Roberts, Mrs Hughes a Mrs C. Evans, Penrhos. Enillwyd y raffl gan Mrs Mair Jones, Glan Gors.

Ail ddewiswyd Mrs Madge Williams a Mrs Eirlys Sharpe i gynrychioli'r gangen ar bwyllgor y Neuadd.

PLAID CYMRU – Trefnir Helfa Drysor i gychwyn o'r Neuadd nos Wener, Mai 22 dan nawdd Plaid Cymru. Bydd yr helfa yn golygu cerddo o amgylch y pentref yn chwilio am 'drysorau'.

Cynehlir cyfarfod yn y Neuadd nos Wener, Mai 15 am 7.30 i drefnu'r Helfa. Estynnir croeso cynnes i unrhyw un a hoffai ddod draw i gynnig ei help.

CYDYMDEIMLO – Dydd Iau, Ebrill 23, yn yr ysbyty bu farw Mr Gwilym Jones, Islwyn. Bu Mr Jones yn dioddef ers rhai blyneddoddd er ei fod yn gwneud ei orau i fynd o gwmpas. Cafodd lawdriniaeth fawr rai wythnosau yn ôl. Bu tan y diwedd yn flaenor ffyddlon yn y Cysegr ac yn mynychu yr oedfaon a'r Ysgol Sul yn rheolaidd. Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Jones a'r teulu yn eu profedigaeth.

EISTEDDFOD BETHEL – Yn dilyn llwyddiant mawr Eisteddfod Bethel eleni penderfynodd y pwyllgor mewn cyfarfod diweddar gyfyngu'r eisteddfod eleni eto i'r cylch. Gan fod problemau wedi codi gyda'r plant yn gorfod dysgu tuag at yr Eisteddfod leol ac Eisteddfod yr Urdd pan gynhelir yr Eisteddfod ym mis Chwefror, penderfynwyd cynnal yr Eisteddfod nesaf ar Ragfyr 5, 1981. Mae'r pwyllgor eisoes yn tynnu allan restr testunau a gobeithir eu cael yn barod erbyn yr haf fel y gall pawb ddechrau paratoi ar gyfer yr Eisteddfod yn yr Hydref.

GWYL GERDDOROL CAER – Dymunir yn dda i nifer o ddisgyblion Mrs H. Williams, Cefn y Gwynt sy'n cystadlu ar y piano yng Ngŵyl Gerdd Caer ddydd Gwener, Mai 1.

Teyrnged i Bartner a Ffrind
THOMAS GRIFFITH
Bryn Alaw Llanrug
(a fu farw Mawrth 5, 1981)

Gweithiwr caled, hynod ffeind ac egwyddorol, ystwyth ei dymer, ffraeth ei bersonoliaeth, cyfoethog mewn doethineg, ac yn foneddigaidd tuag at bawb – y rhinweddau yma i gyd yn gwneud cymeriad godidog, sef – Twm Gryff.

Wedi gweithio gyda Twm yn chwarel Dinowrig, ac wedi bod yn gyfeillion clos ers hynny, gallaf dystio, fel y profwyd ddiwrnod ei angladd, fod pawb oedd yn 'nabod Twm yn gyfaill iddo, ac yntau yn gyfaill cyfa' iddynt hwythau. 'Roedd yn lafurwr di-atal, ac yn mwynhau llafurio, yn grefftwr di-guro. 'Roedd llawer crefft o fewn gwaith chwarelwr, llawer dyn yn feistr ar un neu ddwy grefft, ond 'roedd Twm yn feistr ar y cyfan.

Gadawodd y chwarel pan ddaeth ffatri Ferodo i Gaernarfon: colled enbyd i chwarel Dinowrig a cholled i minnau hefyd. Trwy ei lafur hael a'i allu medrus, dyrchafwyd ef yn is-fformon ac yn fuan iawn wedyn yn reolwr adran. Eto, profodd ei hun yn arbenigwr yn y maes yma.

Cafwyd teyrnged iddo yng Nghapel Mawr, Llanrug, ddiwrnod ei angladd, un gan y Parch W.O. Roberts a'r llall gan Mr Iolo Llywelyn o'r Ferodo. Rhwng y ddau tynasant lun perffaith o Twm. Dywedodd Mr Llewelyn ar ran staff a gweithwyr Ferodo fod Twm yn esiampl i bawb oedd o'i gwmpas, yn ddyn egwyddorol, a phob amser yn gwneud mwy na'i ddyletswydd, ac mai colled amrhisiadwy fydd ei golli.

'Roedd ei fam fel brenhines ganddo: ar ei haelwyd hi y bwytaid de bob Sul. Colodd ei dad yn llanc ifanc, ac mewn ffordd annwyl iawn y soniai amdano. Byddai'n siarad am ei frawd a'i chwiorydd yn wastad. 'Roedd ganddo feddwl mawr o'i deulu.

Byddai Twm yn gweld ei hun yn ffodus o fod wedi cael gwraig fel Mrs Griffith, a gwir oedd hynny, gan ei bod hithau o'r un gwneuthuriad ac yntau. Prif uchelgais y ddau oedd cael cartref cysurus. Trwy ei hymdrech 'roedd y nod wedi ei gyrraedd: aelwyd glyd, dau fab a merch, y rhain heddiw yn bobl ifanc llewyrchus ac yn hynod eu cymeriad. 'Roedd y llong wedi ei hangori'n gadarn.

Wedi llywio'r llong o'r lli.

Ac wedi llwyr angori,

Gadael hon yng ngofal tri

A huno cyn dihoeni.

'Rwyf heno yn hiraethu

Mae amser wedi mynd

Ers diwrnod mawr gwahanu

Myfi a Twm fy ffrind.

Diolch am dy gyfeillgarwch a pharch i dy lwch yr hen Dwm, fy ffrind.
Dafydd, Cefn Coch (Deiniolen).



Mari Owen (ail o'r chwith yn y blaen) a ddewiswyd yn Frenhines mis Mai ym Methel eleni. Yn y llun hefyd mae Gwennno Owen, Ceri Evans, Meimir Owen, Eluned Roberts, Shirley Turner a Helen Williams.

Mr Brian Williams, Cefn Gwynt, — sy' hefyd yn y llun gafodd y dasg o ddewis y Frenhines.

AMGUEDDFA T. ROWLAND HUGHES

Rhaglen y Cyfarfod Agoriadol

Dydd Sadwrn, Mai 23 cynhelir gwasanaeth yng Nghapel Gorffwysfa, Stryd Fawr, Llanberis am 2 o'r gloch. Dyma'r drefn: 1. Gweddi, 2. Parti cerdd dant ysgol

Dolbadarn. 3. Darlith Goffa – Dr T. Emrys Parry A.E.M., 4. Hogia'r Wyddfa, 5. Diolchiadau, 6. Emyr gynulleidfaol 'Tydi a roddai', 7. Y Fendith. Yr organyddes fydd Mrs E.M. Jones, Llanberis.

Am 3 o'r gloch, dadorchuddir y gofeb yn Angorfa ac agorir yr amgueddfa.

Bydd lluniaeth ysgafn i'r rhai sydd wedi teithio'n bell.

DRAENOG



Glywsoch chi hanes Sion a Sian yn llenwi ffurflen y cyfrifiad? (yn Saesneg wrth gwrs gan nad oedd llawer o rai Cymraeg ar gael).

Sian yn gofyn: "Ma' nhw isio gwobod be ydw i – "male" 'ta "female" "

Sion yn ateb: "Mêl i gyd Sian bach!"

CARPEDI



ALUN GLYNJONES

(Wetton a Thomas)

14, Ffordd Garth, BANGOR Ffôn 53705

(gyferbyn â'r orsaf fysiau)

Gostyngiad sylweddol am arian parod

Gosodir pob carped am ddim

Dibynnwch ar ansawdd lle bo ansawdd yn cyfrif

LLENNI



NANT PERIS

BEDYDD – Ar ddydd Sul, Ebrill 13 bedyddiwyd Dyfan Rhys mab Mr a Mrs Emyr S. Jones yng nghapel Saron, Llanwnda. Pob bendith i'r teulu bach. Dymuniadau gorau hefyd i nain Dyfan, Mrs A. Searall Jones, Gwynant ar ei hymddeoliad o fod yn weinyddes staff yn ysbyty Minffordd.

CYFLAWN AELODAU – Nos Sul yng nghapel Rehoboth derbyniwyd tri o blant yr eglwys yn gyflawn aelodau. Y tri oedd John Noel a David Pritchard, Tŷ Isa a David Pritchard, Llys Awel. Fe'i derbyniwyd a gweinyddwyd y sacrament gan y gweinidog, y Parch Marcus W. Robinson. Cyflwynwyd Llyfr Emynau iddynt i gofio'r achlysur gan Mr O.W. Humphreys, llywydd y mis.

CROESO – Balch oeddem o gael croesawu nifer o blant yr ardal gartref ar wyliau dros y Pasg. Mae'n hyfryd eu gweld bob amser.

PRIODAS – Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Alwyn Elis a Nan Jones ar eu priodas. Bu'r briodas yng Nghapel Ucha, Chwillog. Ebrill 16. Y morynion oedd Carys a Linda Jones, Porthmadog, dwy nith y briodferch

a'r gwas oedd Geraint Elis, brawd y priodfab. Treulir y mis mêl yn Awstria. Byddant yn cartrefu yn 'Hafryn', Llwyn Hudol, Pwllheli.

GWAELEDD – Dymunir gwellhad llwyr a buan i Mrs Theresa Jones, 10 Glanrafon sydd ar hyn o bryd yn aros yng nghartref ei brawd ym Mhrestatyn. Hefyd i Mr John Morgan, Gwastadnant sydd wedi gorfod dychwelyd i Ysbyty Môn ac Arfon.

DRAENOG

Gwraig mewn siop leol yn synnu ei bod wedi gwario cymaint ond yn cael cyn lleied o neges.

"Bobol annwyl," meddai, "dim ond bag bach fel hyn ydw i'n gael am wyth bunt?"

"Os leciwch chi, musus," atebodd y siopwr yn ddigon sych, "mi roi eich neges mewn bag mawr, os bydd hynny'n plesio!"

CWM-Y-GLO

EISTEDDFOD – Cafwyd Eisteddfod wedi ei threfnu gan Glwb y Graig yn y ganolfan ar Fawrth 20.

Bu plant pentrefi Cwm y Glo a Brynrefail yn cystadlu, a chafwyd noson lwyddiannus dros ben.

Dyma'r Eisteddfod gyntaf yn y pentref er y rhyfel, a gobeithiwn gael un eto'r flwyddyn nesa.

Mrs J.M. Parry BA, Penrhos Bangor, oedd llywydd y noson, a balch iawn oeddem o'i gweld yn ôl yn ein mysg. Cawsom gyfraniad ariannol sylweddol at gronfa'r Eisteddfod. Diolch Mrs Parry. Y beirniaid oedd: Mrs Mair Lloyd Hughes (canu), Mr Cledwyn Williams, cyn brifathro'r ysgol (Adrodd a Llên), Mr Gwyn Daf Owen (arlunio), y tri o Lanrug.

Cyfeilydd y noson oedd Miss Lowri P. Roberts, Brynrefail, un sydd bob amser yn barod ei chymwynas. Arweinydd y noson oedd Mr Llewelyn Hughes (llywydd Clwb y Graig). Cafwyd rhodd o ddwy gwpan, un gan y Clwb leuenctid, cwpan i'w chadw am flwyddyn gan y buddugol, a'r llall gan Mrs Watkins. Hefyd cawsom gyfraniadau ariannol gan amryw o bobl y pentref. Talwyd y diolchiadau gan y Rheithor, y Parch Gwynfor Williams. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr eisteddfod, a hefyd am gefnogaeth dda. Enillwyr y noson oedd: Canu Dan 5 oed: Debbie Jones, 2. Nicola Houston a Gareth Price, 3. Mark Roberts, Delyth Morris ac Ellen Lloyd. Dan 7: 1. Paul Roberts, 2. Carys Williams, 3. John Evans ac Owain Gwyn. Dan 9: 1. Catrin Gwyn, 2. Eira Wyn Evans, 3. Kelvin Houston.

ADRODD. Dan 5: 1. Nicola Houston, 2. Mark Roberts, 3. Debbie Jones. Dan 7: Ø. Paul Roberts, 2. Carys Williams, 3. John Evans ac Owain Gwyn. Dan 9: 1. Catrin Gwyn, 2. Eira Wyn Evans, 3. Kelvin Houston. Dan 12: 1. Alison Jones, 2. Nerys Williams ac Einir Gwyn.

ARLUNIO Dan 5: 1. Nicola Houston, 2. Adam Cohen, 3. Marian Jones. Dan 7: 1. Paul Roberts, 2. Leo Cohen, 3. Michael Roberts a John Evans. Dan 9: Sally Ellis, 2. Monica McGafferty, 3. Catrin Gwyn. Dan 12: 1. Alison Jones, 2. Neil Roberts, 3. Terry Williams. Dan 15: Cynthia Orritt, 2. Martin Jones, 3. Anwen Morris.

TRAETHAWD. Dan 9 oed: 1. Catrin Gwyn, 2. Paula Walters, 3. Sally Ellis. Dan 12: 1. Einir Gwyn, 2. Alison Jones, 3. Joanne Evans. Dan 15: Cynthia Orritt.

Llinell goll: Mrs G. Chick. **Unawd Piano** Dan 12: Alwen Jones (Enillydd Cwpan Mrs Watkins).

Parti Cydadrodd: 1. Parti Nerys, 2. Parti Karen. **Parti Unsain Cerdd Dant:** 1. Parti Catrin, 2. Parti Emma. **Parti Unsain:** 1. Parti Emma, 2. Parti Caren.

Côr dan 12 oed: 1. Côr Einir, 2. Côr Catrin. **Emyn Dôn dros 50:** Mr Llewelyn Hughes. **Parti Cân Werin:** Parti'r Graig (Enillwyr Cwpan ieuencid).

YR URDD – Nos Lun, ebrill 6 yng nghanolfan Gymuned Cwm y Glo cynhaliwyd noson goffi'r gangen leol o'r Urdd. Cafwyd hwyl a sbri yn yfed coffi a phrynu a gwerthu ar y stondinau amrywiol. Dyma restr enillwyr y raffl ar y noson: 1. Basged Ffrwythau – Mr Dafydd Price, Cwm y Glo, a roddwyd gan Mrs Susan Jones, Dolafon. 2. Cyw lâr – Mrs Fowler, Siop Sglodion Tatws, Cwm y Glo. 3. Clustod: Miss Meinir Jones, Brynrefail a roddwyd gan Mrs Sylvia Williams, Llwyncoed. 4. Potel Sieri: Mrs Catherine Hughes, Siop Sglodion Tatws Cwm y Glo a roddwyd gan Mrs Elizabeth Hughes,

Dolafon. 5. Bocs o 'New Berry Fruits' – Mrs A.J. Jones, 7. Trem Eilian, Brynrefail a roddwyd gan Mr Eurwyn Jones, Llanberis. 6. Wy Pasg: Mrs Jones, Dolafon a roddwyd gan Mrs Ifanwy Jones, Min y Nant. 7. Offer glanhau car modur: Robin Wyn Hughes, 150 Ffordd Penrhos, Bangor a roddwyd gan Mr W. Chick, garej Cwm y Glo. 8. Matiau bwrdd: Mrs Jones, Bryn Gro a roddwyd gan Mrs Margaret Williams, Bryn. 9. Dol: Miss Davies, Noddfa, a roddwyd gan Miss Mair Rowlands, Llanrug. 10. Tocyn Rhodd Smith's: Miss Olwen Parry Jones, Gwylfa, a roddwyd gan Mrs Catherine Foulkes, Cwm y Glo. 11. Bocs Nwyddau 1: Mrs Owen, Cynfi, Glanrafon, Bontnewydd. 12. Bocs Nwyddau 2: Mrs Alice Morris, Becws, Cwm y Glo. Miss Megan Davies, Trigfa a lwyddodd i enwi'r ddol – Sally Ellis, Brynrefail a ddyfalodd sawl ceiniog a dimai oedd yn y pot a'i brawd Richard Ellis a ddyfalodd sawl da-da oedd yn y jar.

Diolch i bawb am eu rhoddion hael a'u cymorth parod a sicrhodd lwyddiant ar y noson.

Nos lau, Ebrill 9, daeth y tymor i ben yng nghwmni Mr Dfydd Price, Cwm y Glo. Mwynhaodd y plant y gemau amrywiol a drefnodd ar eu cyfer. Gobeithio y caiff plant Cwm y Glo a Brynrefail fwynhau ei gwmni eto yn y dyfodol agos.

UNDEB Y MAMAU – Y Rheithor a weinyddai yng ngwasanaeth Cymun y Garawys iaelodau Undeb y Mamau yn Eglwys Sant Gabriel ar nos Fawrth, Ebrill 12. Miss Ceridwen Hughes oedd yr organyddes. Wedi'r gwasanaeth bu cyfarfod busnes yn y ganolfan a pharatomwyd lluniaeth ysgafn gan Mrs H. Roberts a Mrs L. Orritt a diolchwyd iddynt gan amryw o'r aelodau. Diweddiwyd drwy weddi.

O'R YSBYTY – Da ydyw gweld Mr Maldwyn Hughes, 2 Bryn Gro wedi dod adref o Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor ar ôl derbyn triniaeth feddygol a gwybod ei fod yn gwella'n foddhaol.

MERCHED Y WAWR – Cyfarfu'r gangen leol yn y Ganolfan Gymdeithasol nos Fercher, Ebrill 15. Miss E. Hughes, Tan y Graig oedd llywydd y mis.

Mrs Mary Lloyd Williams, Llys Alaw, Llanrug oedd y wraig wadd. Nid oes angen dweud fod pawb wedi eu mwynhau eu hunain yn ei chwmmi. Yr oedd hi yn ei hwyliu gorau yn ail adrodd pregeth olaf y Parch Tom Nefyn William, yn ei eiriau gwreiddiol ef ei hun. Y chweched adnod yn y chweched bennod yn yr Efengyl yn ôl Mathew oedd testun y bregeth honno.

Diolchwyd i Mrs Williams gan Miss E. Hughes, ac ategwyd gan Mrs K. Watkins, Dolwen.

Y gwestwagedd oedd Mrs Jean Hughes, Bryn Gro a Mrs Hilda Orritt, Moranedd. Rhoddwyd gwobr y mis ganddynt hefyd, a Mrs Ifanwy Jones, Min y Nant oedd y wraig lwcus.

Penderfynwyd cynnal nosongoffi ac arwerthiant er budd Trip y Pensiynwyr ar nos Fercher, Mai 20. Gobeithio y cawn eich cefnogaeth arferol eleni eto tuag at yr achos teilwng hwn.

YN GWELLA – Da iawn gennym glywed bod Mr Dafydd Elias Jones, a'i wraig Dilys Jones yn gwella yn foddhaol ar ôl eu seibiant yn yr ysbyty.

Deallwn hefyd bod Mr Maldwyn Hughes wedi gwella ar ôl bod yn cael triniaeth yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad buan i Mrs Olwen Hughes hefyd ar ôl ei anhwylder, ac anfonwn ein cofion atynt i gyd.

PENISARWAUN

EGLWYS SANTES HELEN – Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun, Ebrill 7. Y gŵr gwadd oedd y Parch Ganon Alun Jones, Rheithor Llanberis. Fe roddodd sgwrs amserol iawn ar barchusrwydd. Diolchodd Mrs Mowll iddo. Fe roddwyd y te gan Mrs M.J. Roberts, Tai Croesion a Mrs O.C. Roberts. Fe fydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mai 11, ac fe fydd noson goffi a bwrdd gwerthu tuag at Gylmorth Cristnogol.

LLONGYFARCHWN – Mr a Mrs R. Griffith; Groeslon Isaf a Mr a Mrs R. Williams, 20 Bryntirion ar fod yn daid a nain am y tro cyntaf, ac i Mr a Mrs Richards, Siambar, ar enedigaeth mab bach, brawd i Jonathan.

CYDYMDEIMLWN – A Mrs H. Williams, 12 Bryntirion a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli priod, tad a Brawd. Er bod Henry Williams wedi bod yn cwyno ers blynyddoedd fe aeth yn ddisymwth yn y diwedd.

Hefyd cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Mr Buckley Parry (Bryn Madog gynt). Daeth profedigaeth arall i Mrs P. Williams yn ddiweddar. Colodd ei brawd yng nghyfraith yn Rhostryfan.

CLWB YR HEULWEN – Cynhaliwyd cyfarfod o Glwb yr Heulwen ddydd Mawrth, Ebrill 21. Y gŵr gwadd oedd Mr Tony Elliott ac fe gafwyd prynhawn difyr iawn yn ei gwmni. Soniodd wrthym am y ffordd y mae Eco'r Wyddfa yn cael ei baratoi.

Rhoddwyd y te gan Mrs M. Davies ac fe enillodd Mrs J.M. Jones y raffl. Diolchwn i Bwyllgor y cae chwarae am eu rhodd i'r Clwb, a hefyd i Mr a Mrs Elliott am eu rhodd hwythau.

DIOLCH – Fe garai Mrs P. Mathews, Fresh Winds ddiolch o galon i'r rhai aeth o amgylch gyda'r blychau casglu ar gyfer cartrefi 'Cheshire', ac i bawb am eu haelioni.

Hefyd dymuna Marian a Gareth ddiolch o galon i berthnasau a chyfeillion am y cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu dyweddiad yn ddiweddar.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad nos Fawrth, Mawrth 24. Y gŵr gwadd oedd Mr L. Larsen ac fe ddangosodd ffilmiau ar natur, ac o wahanol garnifals a oedd wedi eu cynnal yn y pentref. Rhoddwyd y te gan Mrs B. Hughes a Mrs N. Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs E. Jones, Cae Corniog.

LLONGYFARCHWN – Mr a Mrs L. Jones, Meillionydd ar eu priodas arian.

CROESO I'N PLITH – I Mr a Mrs Davies sydd wedi symud i fyw i dŷ'r Ysgol o'r Waunfawr.

DYMUNWN – Pob hapusrwydd i Mr a Mrs Orokks yn eu cartref newydd, a

hefyd i Mr a Mrs Gwyn Jones, sydd wedi symud i fyw i Weirglodd Las.

Y SALWCH – Nid yw Mrs K. Williams, 8 Llys-y-Gwynt yn dda iawn. Dymunwn wellhad buan iddi hi.

DYMUNIADAU DA – I Mr Orwing Pritchard, 10 Llys y Gwynt, ar ei ymddeoliad.

TRIP YSGOL SUL – Bydd trip Ysgol Sul capel Bosra i'r Rhyl ar y Sadwrn cyntaf ym mis Gorffennaf. Y mae'n rhaid i bawb sy'n dymuno mynd roi eu henwau i Mr J. Munroe cyn y dydd olaf o fis Mai.

LLUN – Braf oedd gweld llun Sioned Roberts, Bryn Eglwys, yn Y Cymro yn ddiweddar.

DAMWAIN – 'Roedd yn ddrwg gennym glywed am ddamwain Rheon Larsen, Llygad yr Haul. Bu Rheon yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon, am gyfnod gyda niweidiau i'w drwyn a'i lygad. Brysia wella, Rheon.

DIOLCH – Dymuna Mrs Nesta Jones, 2 Llys-y-Gwynt, ddiolch i berthnasau, ffrindiau, a chymdogion, am bob arwydd o gydymdeimlad tuag ati yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yng nghyfraith, Mrs Grace Jones, P (gynt o Ddinorwig). Diolch hefyd i weinyddwyr Plas Pen Gwaith, Llanberis, lle bu'n trigo'n hapus iawn am gyfnod hir.

RHODDION

Diolch yn fawr i'r canlynol am eu rhoddion hael.

£2. Mrs Nesta Jones, 2 Llys y Gwynt, Penisa'rwaun.

£1. Mrs Lizzie Jones, Bron Myfyr, Dinorwig.

£1. Mrs Jane Jones, Buarth Newydd, Dinorwig.

£5. Di-enw, Deiniolen

£2. Mr a Mrs H. Roberts, 2, Tai Plas Tirion, Llanrug.

£1. Mr a Mrs Donald Jones, 2 View Terrace, Deiniolen.

£1. Mrs Dilys Jones, Hafan Elan, Llanrug.

YN EISIAU

Beic mewn cyflwr da ar gyfer bachgen 8 oed. Hefyd coets fawr babi dol, ar gyfer geneth 6 oed. Waunfawr 626


Hen dresel Gymreig o fro'r chwareli – G. Williams. Rhyl 53218.

Hen ddodrefn coed i'w hadnewyddu. Eirianwen Thomas, Bron y Nant, Llanrug. Caernarfon 3515.

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



LLANBERIS

PRIODAS – Yn Abergele priodwyd Edward Elgar Thomas, mab yr organydd Huxley Thomas, 35 Stryd Newton, ac Angela Webb o Ddilyn, Iwerddon. Mae Elgar yn gwasanaethu yn Ysbyty Abergele ers blynyddoedd lawer, ac mae wedi gweithio ei hun i safle gyfrifol iawn ym myd y 'nyrsio'. Dymunir i'r ddau ifanc lawer blwyddyn ddedwydd a hapus.

MARW – Ar ôl cystudd hir bu farw Mrs Mem Jones, Rhes Victoria, gweddwr diweddar William Jones. Cymeriad hynod o garedig a thawel ydoedd – yn barod ei chymwynas i bawb o'i chymdogion bob amser. 'Roedd yn hoff iawn o waith llaw, ac yn ymhyfrydu gweithio ar gyfer y Clwb Methedig a gyfarfu bob Prawn Llun. Estynnir cydymdeimlad yr ardal i'r plant yn eu colled fawr.

Colli un o hen drigolion yr ardal yr ydym hefyd ym marwolaeth Mrs Roberts, Tŷ Ucha'r Ffordd. Gwraig ddymunol a charedig, gyda gwên siriol i bawb pa le bynnag y bo, ac yn ffyddlon gyda'r achos yng nghapel bach Jerusalem tra gallai. Wedi gadael Tŷ Ucha'r Ffordd, daeth i fyw i'r tŷ capel ac 'roedd y capel yn rhan o'i bywyd am flynyddoedd. Ymhen amser gwaethygodd ei salwch a rhaid oedd iddi ymgartrefu gyda Catherine, ei merch yn Llanrug, lle y cafodd bob gofal tyner, a charedig hyd ddiwedd ei gyrfa. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf i'r teulu oll yn eu colled a'u tristwch.

Rai dyddiau yn ôl daeth y newydd i'r fro am farwolaeth Mrs M.T. Hughes, yn Crewe. Fel Mrs Hughes, yr Hospital y byddai pawb yn ei hadnabod – gweddwr ydoedd i Samuel T. Hughes (Y dispenser yn Ysbyty Chwael Dinorwig). Daeth Mrs Hughes i'r ardal gyda'i mam a'i chwaer yn ystod y rhyfel 1914-18. Bomiwyd eu cartref yng ngwlad Belg, a chawsant loches yn Llanberis, gan gartrefu yn Ripon House. Ar ddiwedd y rhyfel dychwelodd ei mam a'i chwaer i wlad Belg lle y cawsant gartref newydd gan y llywodraeth. Arhosodd Mrs Hughes yma, ac ymhen ychydig amser priododd â Hughes y Dispensar a gwneud eu cartref ar y dechrau yn Beech Bank, ac yn ddiweddarach symudasant i Ysbyty'r Chwael lle y trigasant hyd farwolaeth Mr Hughes, ac yna arhosodd Mrs Hughes hyd ddiwedd y gwaith, a chau Chwael Dinorwig, pryd y gorfu cau'r ysbyty hefyd. Bu'n gweithio'n ddyfal iawn gyda chlwb yr Henoed – fel yr ysgrifennydd gyntaf pan sefydlwyd y clwb.

Cydymdeimlir â Vivien yr unig fab. **PLAID CYMRU** – Bu aelodau o Blaid Cymru yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Bron Eryri gyda'r Aelod Seneddol Dafydd Wigley yn ŵr gwadd. Cafwyd noson ddiffr iawn gan bawb.

Trefnwyd Ffair Wanwyn yn y ganolfan leol a bu'r ymdrech yn dra llwyddiannus. Trsoglwyddwyd y swm o £44.50 i Ysgol Pendalar, Caernarfon.

Fe drefnwyd cyfarfod cyhoeddus ar ddechrau mis Ebrill pryd y byddai yr Aelod Seneddol a'r Cynghorywr lleol yn bresennol i gyfarfod â'r ardalwyr i drafod gwahanol bynciau. Ond, yn anffodus ni allai'r Aelod Seneddol fod yn bresennol. Gorfu iddo fod yn y Tŷ Cyffredin ar y noson. Fe drefnir cyfarfod eto cyn gynted ag y mae'n bosibl.

PEDAIR CENHEDLAETH – Dyma lun Dylan Wyn – mab bach cyntaf i Helen Wyn, merch Nellie a Wilbert Davies, Rock Terrace, ac wrth gwrs ar lin Mrs Mary Thomas, Pant Du, ei hen nain y mae Dylan Wyn, hithau fel ei nain wedi hen wirioni â'r babi newydd.

Mae Helen a'i phriod Elwyn o Flaenau Ffestiniog wedi bod yn byw yn yr Almaen, y gŵr yn gwasanaethu gyda'r lluoedd arfog ac wedi symud erbyn hyn i Brampton ger Caergrawnt.

DIOLCH – Dymuna Nerys a Gwyn Jones, 3 Porth-y-Cwm, Llanramon DC ddiolch yn fawr iawn i'r teulu a'r ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth eu mab bychan Dyfan Gwyn.

Dymuna Dilys a Gareth 18 Bryn Rhos, Caernarfon ddiolch o galon i'w perthynasau, a'r cyfeillion am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar

Y PEDAIR CENHEDLAETH



Mrs Mary Thomas yn dal ei gor-ŵyr, Dylan Wyn ar ei glin. Mrs Nellie Davies a Mrs Helen Jones o bobu.

YN GWELLA – Pleserus iawn yw croesawu rhai o'r ardalwyr gartref ar ôl cyfnod mewn ysbyty, ac i ddeall eu bod yn gwella mor dda.

Mrs Beti Parry. Ar ôl wythnosau lawer o driniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon mae Beti Parry, priod Cledwyn Parry, Glan y Don, gartre.

Mrs Phyllis Roberts. Croeso gartre i chwithau Mrs Phyllis Roberts, Arfryn, Stryd Olgra, ar ôl ysbaid yn Ysbyty Môn ac Arfon. Mae'r cymdogion oll wedi eich colli – ac yn falch o'ch dychweliad adref.

Miss Annie May Jones. Bu Miss Annie May Jones, 'Ardwyn', Stryd Capel Coch yn yr ysbyty ym Mangor ac ym Minffordd am gyfnod byr. Da deall eich bod wedi gwella – croeso yn ôl i'r ardal.

YN YR YSBYTY – Mae Mrs Grace Owen, priod Mr Aled Owen, Stryd Siarlott yn Ysbyty Môn ac Arfon. Dymunir iddi adferiad yn fuan iawn.

GWERTHFAWROGIAD – Hoffwn longyfarch a chanmol plant, athrawon, a phrifathro Ysgol Dolbadarn am eu llwyddiant yn y cyngerdd a gynhaliwyd yn yr ysgol ddiwedd Mawrth. Cafwyd gwledd eithriadol, gyda 117 o fabanod yn cymeryd rhan. Fel un sydd yn ymdrin â phlant yn ddyddiol gwn yn iawn faint o lafur fu i gynhyrchu perfformiad mor ardderchog.

DATHLU – Ddechrau'r mis hwn bu Mr a Mrs Eddie Jones, 1 Blaen-y-ddôl yn dathlu eu priodas aur yn dawel yn eu cartref gyda lluo o gymdogion a chyfeillion yn galw heibio i ddymuno'n dda iddynt. Mae'r ddau yn dra adnabyddus yn yr ardal yn enwedig Eddie, pawb yn ei adnabod fel 'Eddie Patrwm'. Bu tair cenhedlaeth o'r teulu yn gweithio yn 'Yr Iard' yn Chwael Dinorwig – Eddie wedi ei brentisio gan ei dad, William Jones, Patrwm, ac yntau cyn hynny gan ei dad, ac mae olion eu gwaith cywrair i'w weld o hyd yn yr amgueddfa yng Ngilfach Ddu. Anfonwyd dymuniadau da i'r ddau gan lluo o gyfeillion a gwerthfawrogwyd y cyfan yn fawr iawn. Dymunir i Annie ac Eddie lawer blwyddyn ddedwydd eto, a gobeithio y caiff Eddie wellhad buan iawn gyda thywydd braf y gwanwyn a'r haf sydd i ddod.

enedigaeth eu merch fach – Dawn Louise'.

LLONGYFARCHIADAU – I Mr a Mrs Idwal Lloyd Roberts, Merddyn Coch am fod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach – Rhys Lloyd Roberts i Elen Lloyd eu merch. Mae Elen a Dafydd, ei gŵr wedi ymgartrefu yn Ninbych.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Clara Roberts ar fod yn nain unwaith eto. Ganwyd merch fach i Dilys a Gareth sydd yn byw yng Nghaernarfon.

PWYLLGOR Y GYMUNED – Cynhaliwyd y Pwyllgor Blynnyddol o Bwyllgor y Gymuned yn y Ganolfan gyda Mr Tom Jones yn llywyddu. Y llywydd newydd am y flwyddyn (1980-81) fydd Mr Gwilym S. Jones o Nant Peris. Yn ystod y noson cafwyd trafodaeth frwd iawn ynglŷn â denu twristiaid i'r ardal. Dangoswyd diddordeb mewn cael rhyw fath ar lyfryn neu lyfr hysbysebu i roddi llwyr wybodaeth am yr ardal i'r dieithriaid.

Gan fod gwaith Dinorwig bron â dod i ben penderfynwyd anfon llythyri'r CEGBi ofyn iddynt ailagory llwybrau cyhoeddus o gwmpas yr ardal sydd wedi eu cau tra bu'r gwaith yn cael ei gwblhau.

Rhoddydwyd gwybodaeth gan yr ysgrifennydd fod cynlluniau ar dro i adeiladu lloches i deithwyr y bwsiau yn Nant Peris.

YR YSGOL FEITHRIN – Ar Fawrth 11, cynhaliwyd Pwyllgor o Fudiad Ysgolion Meithrin Arfon yn Festri Capel Coch. Daeth cynulliad da ynghyd a chafwyd noson fuddiol iawn. Daeth rhai o aelodau Cwmni Theatr Gwynedd i'r pwyllgor i ddangos rhai o gynhyrchion seiri'r Theatr. Yn yr amser rhwng gwneud 'props' i'r dramâu, mae'r seiri yn brysur iawn yn gwneud teganau, a dangoswyd amrywiaeth o'r teganau yma.

Prynwyd cwpwrdd arbennig ar gyfer cadw llyfrau i'r plantos ac erbyn hyn mae'r mamau wedi trefnu cornel llyfrau iddynt, ac maent yn cael pleser di-ben-draw yn dewis eu llyfrau a chael eistedd o amgylch y llyfrau i'w mwynhau.

Da o beth yw gweld rheini ifanc yn cymryd cymaint o ddiddordeb yn eu plant, ac i weld y gweithgarwch a'r

ffyddlondeb i'r mudiad ardderchog yma. Bydded i'r llwyddiant presennol barhau i'r dyfodol.

Ar ddechrau'r mis hwn trefnwyd Noson Goffi yn y ganolfan a bu'r ymdrech yn llwyddiant mawr.

NOSON GOFFI – Cynhaliwyd noson goffi ar Ebrill 2 er budd yr Ysgol Feithrin. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r masnachwyr am eu nwyddau at y raffl; am y rhoddion ariannol ac i bawb a gyfrannodd i wneud y noson mor lwyddiannus. Cafwyd elw o £143.85 ar y noson. Enillwyd y raffl oedd: Ceffyl llechen: Pat, Stryd Siarlott. Raffl fawr: 1. Glo: Margaret Griffith. 2. Da-da: Marie Bayliss. 3. Sieri: Miss Jones, 10 Stryd y Ffynnon. 4. Dol: Lynne Ellis, Rallt Goch. 5. Llian: Pat, Stryd Siarlott. 6. Llwyau Te: Anita Humphries, Dôl Elidir. 7. Babyham: Christine Jones, Llainwen. 8. Bath Cubes: Sue Lowe, Odyn Gopr.

Yn ystod wythnos Wyl mudiad Ysgolion Meithrin, Mehefin 8-15, cynhelir Bingo nos Fercher, Mehefin 10 am 7.30pm yn y ganolfan. Croeso i bawb. Gobeithir arddangos rhywfaint o waith y plant a'i gwneud yn noson agored.

CYDYMDEIMLAD – Estynnir cydymdeimlad dwysaf â Dilys, priod Cyril Jones, Stryd Newton, ar golli ei thad. Brodor o Frynrefail ydoedd ei thad ond bu'n trigo gyda'i ferch a'i theulu am beth amser cyn iddo symud i'r Ysbyty yng Nghaernarfon.

Hefyd, cydymdeimlir â Mrs Nan Griffiths, Maes Padarn, hithau wedi colli ei thad, Mr William Parry, Brynteg, rai wythnosau yn ôl.

LLONGYFARCHIADAU – Da iawn wir Rhiannon – yn llwyddiannus gyda'r arholiadau cerdd dan nawdd Bwrdd yr Ysgolion Cerdd Brenhinol – wedi cyrraedd Gradd 5. Unig ferch Mr a Mrs Selwyn Pritchard, Madryn, Stryd Newton yw Rhiannon, ac yn amlwg mae yn cerdded yn ôl traed ei mam, Ann Pritchard, sydd yn gyfeilyddes mor ragorol. Disgybl i Mrs Rhian Roberts, Bethesda yw.

RHODD – Cyflwynodd Mr a Mrs W.A. Hughes, Byngalo Rhiwen, Deiniolen 15 i Gronfa Goffa Dr Vyrnwy Jones. Dyma'r Gronfa sydd wedi'i throsglwyddo i Gartre Pen Gwaith.

CLWB ERYRI – Yn y Ganolfan bawn llun yn ystod mis Mawrth cyfarfu aelodau o Glwb Methedig Eryri dan lywyddiaeth Griff Owen. Yn bresennol, roedd Mrs Babbs a Mrs Thomas, dwy o'r gweithwyr Cymdeithasol. Rhoddwyd y te gan aelodau Merched y Wawr Cwm y Glo, a diolchwyd iddynt gan y llywydd.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yng nghyfarfod Mawrth cawsom y fraint o groesawu Mrs Dilys Baylis, a threuliwyd awr ddiffr iawn yn ei chwmni yn ateb cwestiynau ar wybodaeth gyffredinol. Cafwyd ymateb da iawn gan yr aelodau, a llawer ohonynt a gwybodaeth eang ynglŷn ag ardal Llanberis.

Cydymdeimlwyd â Mrs Robert Morris yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yng nghyfraith, a dymunwn adferiad buan i Mrs Morris ar ôl iddi gael damwain yn ei chartref.

Balch hefyd oeddem o gael gweld Mrs J. Lloyd Jones gyda ni ar 7ol ei gwaeledd.

Gyda thristwch mawr y clywodd yr aelodau am farwolaeth Mrs Mem Jones, Rhes Victoria, un o'n haelodau mwyaf ffyddlon, a phleser bob amser oedd cael gweld ei gwaith llaw yn y Sefydliad. Yr ydym fel aelodau yn anfon ein cydymdeimlad ddiffuant i'r teulu i gyd.

LLONGYFARCHIADAU – Dymunwn longyfarch Malcolm Allen o Ddeiniolen, ar gael ei ddewis yn aelod o dîm pêl-droed dan bymtheg oed Ysgolion Gogledd Cymru. Mae Malcolm yn fab i Mr a Mrs Glyn Allen, ac yn ŵyr i Mr a Mrs Percy Allen, Maes Padarn.

CRWYDRO LLWYBRAU

Daeth y tymor 'codi allan' unwaith eto, a'r tywydd braf dros wyliau'r Pasg wedi ysgwyd y mwyaf diog ohonom a'n cymell allan o'r tŷ. Os nad oes chwiw garddio arnoch, beth am grwydro rhai o lwybrau plwyf eich ardal yr haf hwn? Wyddoch chi fod (yn swyddogol o leiaf) gannoedd, ie cannoedd o lwybrau plwyf yn Llanrug, Llanberis, Llanddeiniolen a'r Waunfawr. Mzent i gyd yn amrywio o ran hyd ac uchder i gopa'r Wyddfa ei hun! Yn wir, mae digon o waith cerdded i gadw cwmni 'Carnation Corn Plasters' mewn busnes am flynyddoedd!

Gobeithiwn roi ambell i daith gerdded i chwi'r darllenwyr yn ystod y misoedd nesaf, gan symud o un plwyf i'r llall. Ceisiwn drefnu'r teithiau fel ei bod yn bosibl cychwyn a diweddu'n yr un lle - ac felly ei gwneud yn bosibl i rai o'r Waunfawr gerdded llwybrau Llanddeiniolen neu i rai o Lanberis ddod i Lanrug i gerdded. Dechreuwn y mis hwn yn Lanrug:

Gan gychwyn o'r rhos a enwyd Y Rug ac a roddodd enw i'r plwyf: erbyn heddiw'n rhes o dai cyngor. Dilynwch y llwybr rhwng rhif 9 a 10 a heibio i fferm y Rhosddu cyn croesi afonig fechan a dringo am Lain Gro a'r Lôn Bost. Yma ar y dde mae hen gapel Bedyddwyr Llanrug. Dechreuwyd yr achos yma gan un Hugh Roberts o Dy'nybuarth a arferai fynd i'r Coedydd, Llanberis. Yr oedd y daith o Lanrug yn ormod i'w blant, ac felly penderfynwyd cychwyn achos y Bedyddwyr yn Llanrug ym 1875. Mae'r capel bellach wedi cau ac yn cael ei ddefnyddio fel storfa gan Gyngor Arfon.

Oddi yma dilynwch y 'Lôn Bost' am y sgwâr ond troi oddi arni heibio i dalcen Ogwen ac ar hyd llwybr 'Halfway' sef yr enw ar yr hen dafarn a safai yma. Daw'r llwybr hwn allan ar ffordd Glanffynnon, wrth ymyl y ffynnon a roes enw i'r stad dai. Trowch i'r chwith yma am Afon Rhos a throi eto i'r chwith am y Bryngwyn. Wrth groesi'r afon (eto) ewch ar draws Parc Minffordd, gan ddilyn y llwybr tua'r Gelliŵd a ThanyCoed. 'Roedd y Gelliŵd yn bod 150 o flynyddoedd yn ôl, ac y mae cywydd wedi ei 'sgwennu am y tyddyn a'i drigolion gan Gutyn Peris yn 1834:

'At gyfeillion tirionaf
Yn Llanrug, llawen yr af;
I'r Felliŵd i rodio
Yr af a drigaf dro. . ."


Trowch i'r dde yma, a dilyn y ffordd tua'r Ceunant, ond troi eto i'r dde a dilyn ffordd Tyddyn Rhyddid. Pasio heibio i Dai Newyddion ar y chwith - cartref mam Syr John Morris-Jones. Yn syth o'ch blaen dacw hen eglwys Llanrug yn swatio yng nghesail poncan Bryn Llan. Anelwch am yr eglwys gan ddilyn y llwybr ar draws y caeau tua'r fynwent. Rhaid oedi ychydig yma, yn enwedig yn yr hen fynwent lle ceir beddau diddorol: cistfaen Dafydd Ddu Eryri, cofgolofn Syr Hugh Rowlands V.C. a bedd teulu Bayley Williams - y tad a'r mab yn rheithoriaid yn Llanrug.

Wrth droi'n ôl tua'r pentref rhaid dilyn rhan o ddreif Plas Tirion, hen gartref teulu Rowlands, tiffeddiannwyr, porthmyn a bancwyr. Daw'r daith a chwi'n ôl i Lanmoelyn, heibio'r hen efail. Gellir dewis dilyn y ffordd yn ôl tua'r sgwâr os dymunir, neu os nad ydych wedi blino gormod, yna trowch i'r chwith ar Groeslon Glanmoelyn tua Phen-y-Greuer. Cyn cyrraedd tai Hermon, trowch i'r dde ar hyd lled cae tua Court y Guard a hen bentref Didfa Hwch. Ewch ymlaen ar hyd y llwybr gan groesi'r caeau heibio i Lwyn y Brain a Thyddyn Mawr, nes cyrraedd ffordd Bethel yn y Cawia. Rhaid dilyn y ffordd oddi yno, yn ôl heibio i Ysgol Bryn'refail i Ros Rug a'r man cychwyn. Bydd y daith wedi amgylchu pentref presennol Llanrug.

CEUNANT

GWELLHAD BUAN - Dymunwn adferiad buan i Mr Gareth Jones, Tŷ Capel ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon.

LLONGYFARCHIADAU - I Einir a Gwenno Parri, Morwel, ar eu llwyddiant yn yr arholiadau ysgrifenedig a Sirol. Byddant yn cael eu gwobrwyo yn y Gymanfa a'r Cyfarfod Misol ym mis Mai.



GŴYL DDrama IEUENCTID

Cynhelir Gŵyl Ddrama Ieuencid yn Theatr Seilo, Caernarfon, nos Fercher, Mai 6, 1981. Mae'r Wyl wedi'i threfnu gan Gyngor Gwlad Gwynedd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru. Cymerir rhan gan Gwmnïau Drama o Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon; Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda; Ysgol Tryfan, Bangor; ac Aelwyd yr Urdd, Neuadd Syr John Morris-Jones, Bangor. Y llywydd fydd y Dr John Gwilym Jones, Y Groeslon, a'r Beirniad fydd R.A. Roberts Ysw., Dyserth. Cyflwynir Tlws i'w ddal am flwyddyn i'r Cwmni Buddugol.

Dechreuir am 7.00 o'r gloch, a'r tal mynediad fydd 75c i oedolion, a 50c i blant a phensiynwyr. Mae tocynnau ar gael yn Siop Gray Thomas, Caernarfon; Swyddfa'r Cyngor Gwlad, 2 Cei Llechi, Caernarfon;

neu gan Tony Elliott, 3 Bryn Eglwys, Penisarwaun.

DRAENOG



Wrth snwro o gwmpas y fro am stori - cael hyd i hon. Diflannodd deunaw o 'folders' miwsig Band Llanbêr o'r Ganolfan yn ystod y mis. Rŵan 'dach chi'n gwobd cystal a finna' - fedar ffoldars ddim cerddad! Be ddigwyddodd me' chi? 'does neb yn sicr eto - ond mae gan yr hogia band rhyw syniad.

Cyn iddyn nhw fynd ati i ddilyn trywydd bach gan DRAENOG - a wnaiff y diawl (neu'r diawliaid) dan din ddychwelyd y ffoldars i'r union fan lle'u cadwyd - neu mi fydd yn BANDimoniym!

GWYDRO DWBL?

ARFON WINDOW FITTERS Ltd.

56a Ffordd Penchwintan, Bangor
Bangor 52313

Cyngor arbenigol yn rhad ac am ddim
Gwarant o 5 mlynedd ar yr holl waith

CEFNOGWCH Y CWMNI LLEOL
SY'N LLOGI LLAFUR LLEOL

Cyfarwyddwr: Ian Harris

OSMOND W. SHAW



Peiriannydd
Radio a Theledu
& Gwasanaeth Awdio

BWLCH UCHAF

DEINIOLLEN

Ffôn Llanberis 545

Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch
cyn 10 o'r gloch

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882

Perchennog : J. Evans

LLANRUG

PEN-BLWYDD – Nos Fawrth, Mawrth 31 yng Nghanolan Hafan Elan cafwyd parti a chyngerdd (wedi ei drefnu gan Bwyllgor a thrigolion y Stâd) i ddathlu pen-blwydd Mr Thomas Pritchard (Twm Bach D.M.) yn bedwar ugain mlwydd oed. Arweinydd y noson oedd Rol Williams, gyda Rosalind a Myrddin yn difyr. Diolchwyd gan Mr Emrys Owen, 9 Hafan Elan ac enillwyd y raffl gan Mrs K. Griffith, Rhif 20.

I Mr Thomas Pritchard, 4, Hafan Elan, Llanrug, ar achlysur ei ben-blwydd yn bedwar ugain.

Fel Twm Bach D.M. yr adwaenid o Gan ei gyfeillion o fewn y fro, Mae'n Hafan Elan ar hyn o bryd Yng ngofal ei Fari ac yn wyn ei fyd.

Fe deithiodd filltiroedd yn hollol ddi-ffys

Tu ôl i olwynion gryn amal i fws, Yn awr caiff fynd i'r Sgwâr am dro Agwled rhai eraill yn mynd – fel y bu O.

Dymunwn ni rhai sydd 'ma heno Flwyddi dedwydd iddynt eto, Ac y caiff 'Rhen Dom a Mari Amser hapus yn ein cwmni.

Emrys Owen,
9 Hafan Elan.



DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Thomas Pritchard, 'Carel', 4, Hafan Elan ddiolch o galon i'w teulu, eu cymdogion yn Hafan Elan a'u ffrindiau i gyd am y caredigrwydd, y llw anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd Mr Pritchard ar achlysur ei ben-blwydd; diolch arbennig hefyd i'w merch Betty am drefnu'r te parti yn y tŷ.

Y SEINDORF – Cynhaliwyd noson o 'Gawl a Chân' yng nghwmni Dafydd Iwan yn yr Ysgol Gynradd ar Fawrth 25. Cymerwyd rhan hefyd gan grŵp o'r Seindorf. Enillwyd y raffl gan Miss Eirian Morris. Diolchwn ibawb am eu cefnogaeth.

Bu'r Seindorf yn llwyddiannus unwaith eto yn Pontin's Southport ar Ebrill 17. Daethant yn chweched allan o 18 o fandiau gyda 176 o farciau. Ânt ymlaen yn awr i'r rownd derfynol a gynhelir ym Mhrestatyn ddiwedd mis Hydref. Cynhelir Ffair Sborion yng Nghaernarfon ar Fai 16. Derbynnir sborion gan Joyce Jones neu unrhyw aelod o'r Pwyllgor Merched.

BEDYDD – Dydd Sul, Ebrill 5 yn y Capel Mawr bedyddiwyd Shaun William, mab bychan Mr a Mrs Donald Keith Burgess (o Scarborough, Ontario, Canada, gan y Gweinidog y Parch W.O. Roberts. Mae Mrs Burgess (Catherine) yn ferch i Mr a Mrs George Lovatt, Brwynog.

DIOLCH – Dymuna Mrs Megan Pritchard, 'Golygfa', 19, Bryn Moleyn ddiolch yn gynnes i'w pherthnasau, cymdogion a chyfeillion am y caredigrwydd a'r cardiau dderbyniodd ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon

EISTEDDFOD SIR YR URDD – Daeth llwyddiant i dri pharti o'r Ysgol Gynradd yn Eisteddfod y Sir – Records yn drydydd, Dawnsio Gwerin yn ail, a'r Parti Dawnsio Creadigol yn gyntaf. Llongyfarchiadau i'r plant i gyd a phob hwyl i'r Parti Dawnsio Creadigol yn Nyffryn Teifi.



Dyma Lowri Angharad Roberts, Bedw Gwynion. Chwech oed yw Lowri ond gwnaeth tipyn o gamp yn Eisteddfodau'r Urdd. Daeth yn ail ar yr Unawd Gerdd Dant dan 9 yn yr Eisteddfod Gylch, a daeth i'r llwyfan a chael y drydedd wobwr yn Eisteddfod y Sir ym Mangor. Da iawn, Lowri.

MARW – Bu farw Mrs Ellen Williams, gweddwr Mr D.S. Williams (Bryn Awelon gynt), ym Mhlas Pen Gwaith, Llanberis yn ddiweddar yn 92 mlwydd oed. Trigodd yn Llanrug ar hyd ei hoes bron ac 'roedd yn aelod ffyddlon a gweithgar o Eglwys Hermon. Bu'n aelod hefyd o gorau canu ac adrodd yn y blynyddoedd pan oedd bri ar bethau yn yr ardal.

Bu'r angladd dydd Llun, Mawrth 23 gyda gwasanaeth yng Nghapel Hermon a'r claddu'n dilyn ym mynwent Llanrug. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Erfyl Blainey, Llanfairfechan, Cledwyn Parry, Rhuthun, W.O. Roberts, Gwynfor Williams a Mrs Mary Lloyd Williams, Llanrug. Yr organydd oedd Mr J. Griffith Jones, 22 Tai y Bont.

Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â'i nith a'i gŵr, Mr a Mrs Harry Roberts, 2 Tai Plastirion a'r teulu a fu mor ffyddlon iddi ar hyd y blynyddoedd.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Harry Roberts, 2 Tai Plastirion ddiolch i bawb o'r teulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd tuag atynt ar golli eu modryb, Mrs Ellen Williams. Diolch arbennig i holl staff Plas Pen Gwaith am eu gofal diflino ar hyd y blynyddoedd. Diolch hefyd am y llythyrau a'r cardiau a'r rhoddion dderbyniwyd tuag at Blas Pen Gwaith. I'r Gweinidogion gymerodd ran yn y gwasanaeth a Mr Selwyn Morris, Llanrug am wneud y trefniadau. Diolch yn fawr i bawb.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR – Nos lau, Ebrill 2 cafwyd Noson Goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs Nancy Roberts, Annedd Wen. Anfonwyd cofion a dymuniadau da at chwiorydd oedd yn wael gartref ac yn yr ysbytai a dymuno gwellhad buan iddynt. Diolchwyd i'r chwiorydd oedd yn methu bod yn bresennol am anfon rhoddion mewn arian a nwyddau. Llongyfarchwyd Miss Mary Owen, Tai Plastirion ar ei phen-blwydd a dymunwyd gwellhad buan iddi ar ôl ei damwain. Cydymdeimlwyd â Mrs Myfi Roberts, Tai Plas Tirion ym marwolaeth ei modryb, Mrs D.S. Williams. Diolchwyd i Mrs Jane Williams, Bryn Eifion a Mrs Dorothy Jones, Tegerin am rôddi'r coffi. Bydd y cyfarfod nesaf, Mai 7 am 7 o'r gloch.

PRIODAS – Dydd Sadwrn, Ebrill 18 yn y Capel Mawr, priodwyd Miss Beryl Wyn Jones, merch Mr a Mrs R.E.

Jones, Ogwen, Llanrug, a Mr Philip Griffith, mab Mr a Mrs Arfon Griffith, Ogwen Grill, Bethesda. Gwasanaethwyd gan y Parch W.O. Roberts. Yr organydd oedd Dafydd Horman.

Dymunwn bob bendith iddynt yn eu bywyd priodasol.

CANOLFAN HAFAN ELAN – Nos Fercher, Ebrill 8 o dan lywyddiaeth Mrs Dilys Jones cafwyd noson ddiddorol ac addysgiadol yng nghwmni'r gŵr gwadd, Mr David Whiteside Thomas. Ei destun oedd 'Hanes Llanrug yn y Gorffennol'. Talwyd y diolchiadau gan Mrs E. Foulkes Williams, 16 Hafan Elan.

Ar Ebrill 14, bu Mr Rol Williams a'i fab Gethin yn garedig iawn yn dod atom unwaith eto i'n diddori gyda sleidiau o'r ardaloedd cyfagos. Cyflwynwyd hwy gan yr ysgrifennydd Miss M. I. Rowlands a diolchwyd iddynt gan Mr John Morris, 12, Hafan Elan.

CYDYMDEIMLO – Mae'n cydymdeimlad llwyr â theulu'r diweddar Mrs E. Roberts, 25 Hafan Elan yn eu profedigaeth.

O'R YSBYTY – Croeso adref i Mrs E. Williams, 6 Hafan Elan ar ôl bod yn Ysbyty Môn ac Arfon.

CYDYMDEIMLIR – Â Mrs E. Griffith, Fron Ganol, ar farwolaeth ei chwaer, Mrs Dickson, Bryn Eden.

Hefyd â Mrs Hughes Jones, Fferm Bryn Afon ar farwolaeth ei mam.

YN YR YSBYTY – Dymunwn adferiad buan i Mr Albert Howells, Bryn Elert a Mr Elwyn Jones, Y Fedwen sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty ym Mangor. Hefyd i Mrs M. Jones, Bryn Hyfryd sydd wedi dod adref ac yn gwella.

CLWB BLODAU'R GRUG – Cynhaliwyd cyfarfod brynhawn lau, Ebrill 9, dan lywyddiaeth y Parch D.G. Williams. Y wraig wadd oedd Mrs O.M. Lloyd, Caernarfon a chafwyd anerchiad ganddi ar y testun 'Ofergoeliaeth'. Cydymdeimlwyd â Mrs C. Griffiths, Fron Ganol, Mrs M. Roberts, 2 Tai Plastirion a Mrs Ceinwen Roberts, Tanycoed yn eu profedigaethau. Dymunwyd adferiad buan i Mrs E. Williams, 6 Hafan Elan ac hefyd i Mrs A. Bennet, Mountain View ar ôl ei damwain. Croesawyd Mrs N. Pritchard, Glanfa, Miss D. Jenkins, 1 Penrallt a Mrs Dora Jones, Y Fedwen yn ôl ar ôl eu gwaeledd.

Balch oeddyd o weld Mr a Mrs O. Owen, 22 Bro Rhyddallt a Mrs E. Williams, Y Rheithordy yn bresennol.

Dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs L. Hughes, Isfryn, Mrs N. Owen, Trigle, Mrs M. Jones, Bronallt a Miss M. Owen, 3 Tai Plastirion.

Rhoddwyd y te gan Mrs E. Jones, Bod Ifor, Miss B. Williams, Glan Padarn, Mrs A. Smith, Llechwedd, Mrs C. Williams, Gwelfryn, Mrs Williams, Meirionfa a Mrs A. Parry, Bryn Coch.

Diolchwyd gan Mrs Myfi Roberts, Mr Ifor Williams, Gwelfryn a Miss M. Roberts, Ganllwyd.

Enillwyd y raffl gan Mrs N. Pritchard, Glanfa. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fai 14. Nos lau, Mehefin 4, bydd Noson o De, Prynu a Gwerthu yn y Neuadd Goffa.

AR WYLIAU – Ar ymweliad â Mr a Mrs Alf Parry, Bryn Heli mae Mr a Mrs Irowerth Telfryn Jones o Seland Newydd, Mr Jones yn frawd i Mrs Parry ac wedi ymgartrefu yn Seland Newydd er 32 o flynyddoedd. Gobeithio ei fod yn mwynhau ei arhosiad ac y gwelwn ef yn ôl eto'n fuan.

UNDEB Y MAMAU – Bu Offeren y Grawys i Aelodau Undeb y Mamau yn Eglwys Sant Mihangel ar nos lau, Ebrill 2 gyda'r rheithor yn gweinyddu. Wedi'r gwasanaeth bu cyfarfod yn y Rheithordy o dan lywyddiaeth Mrs Williams. Darparwyd lluniaeth ysgafn gan Miss C.J. Roberts, Y Fron a Mrs R. Griffiths,

Orwig House. Diolchwyd iddynt gan Mrs Williams, Y Rheithordy. Diweddiwyd drwy adrodd y Gras.

PRIODAS – Ar ddydd Sadwrn, Ebrill 4, priodwyd Mr Geoffrey Ronald Thomas, Great Sankey, Warrington gyda Miss Patricia Ellen Fearn, Afonwy, Pont Rug. Yn Eglwys Sant Mihangel y bu'r briodas a'r Rheithor oedd yn gweinyddu. Yr organyddes oedd Miss N. Owen, Glan'rafon. Bu'r wledd briodas ym Mron Eryri, Llanberis. Dymunwn iddynt bob bendith yn eu bywyd priodasol.

ANGLADD – Bu farw Mrs Elsie Roberts, 25 Hafan Elan a bu ei hangladd ym Mynwent Sant Mihangel fore dydd Llun. Ebrill 11. Bu gwasanaeth yn Hafan Elan gyda'r Rheithor yn gwasanaethu ac ef hefyd oedd yn arwain y gwasanaeth yn y fynwent. Cydymdeimlir â'r teulu oll yn eu galar.

CRONFA'R FYNWENT – Dymuna'r Rheithor a'r Wardeiniaid ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion i Gronfa Mynwent Sant Mihangel: Mrs N. Thorne, 60 Maes Padarn, Llanberis £2; Mrs Lewis, Madryn House, Llanrug £3; Miss Owen, Tai Plas Tirion, Llanrug, £2; Mrs M. Jones, 1 Bryn Fedwen, Llanrug, £3; Mrs B. Peris Williams, Egryn Villa, Llanrug, £5; Mr Elfed Owen, Caernarfon, £5.

EISTEDDFOD LLANRUG – Cyfarfu pwyllgor yr eisteddfod bentref a phenhwyd Tachwedd 7 fel dyddiad yr eisteddfod. Hyderir y ceir eisteddfod lwyddiannus eto eleni.

DIOLCH

Dymunaf ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu, cymdogion a chyfeillion o bell ac agos am y cardiau pen-blwydd, anrhegion gwerthfawr a'r dymuniadau da tuag ataf.

Yr eiddoch yn ddiolchgar,
Lizzie Hughes (Isfryn)

**SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP TELEDU**

**T
CEPAS**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
(Ffôn: Llanberis 205
gyda'r nos)

W.J. GRIFFITH

**PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG**

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

**GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW**

GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

LLANRUG (Parhad)



Mrs J.C. Williams gyda chynnyrch cangen Merched y Wawr ar gyfer Parti Bedydd, cystadleuaeth yn Ffair Wanwyn Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr, a gynhaliwyd yng Nghaernarfon Ebrill 11. Yn ogystal â Mrs Williams, cynrychiolwyd y gangen gan Mrs Beryl Thomas, Mrs Jean Roberts a Mrs Olwen Huws.

MERCHED Y WAWR — Cynhaliwyd cyfarfod Merched y Wawr yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Ebrill 14. Llywyddwyd gan Miss Phyllis Ellis a'r gŵr gwadd oedd Mr Elwyn Morris o Fôn, arbenigwr ym Myd Natur.

Cafwyd noson addysgiadol a difyr yn gwrando ar Mr Morris yn sgwrsio ar sut i drin Planhigion Tŷ yn arbennig a'n cyfarwyddo yn y ffordd i'w tyfu a'u meithrin.

Diolchwyd i Mr Morris gan Mrs W.A. Jones. Croesawyd Mrs Jane Williams, Bryn Meirion yn ôl ar ôl gwaeldd, a chydymdeimlwyd â Mrs Myfi Roberts, Tai Plas Tirion a gollodd ei modryb yn ddiweddar, gan Miss Ellis, llywydd y gangen.

Hefyd llongyfarchodd Miss Ellis y gangen ar lwyddiant pedair aelod yn y paratoad cywrair gafwyd ganddynt ar gyfer bedydd. Y bedair aelod yw Mrs Olwen Hughes, Mrs Jean Roberts, Mrs Beryl Thomas a Mrs Jennie Williams. Arddangoswyd y cywaith hwn ac eraill o gylch Arfon yn Ffair Wanwyn Merched y Wawr yng Nghaernarfon.

Enillodd Mrs Jennie Williams yr ail wobwr am Wisg Fedydd i Fabi a dewiswyd Meringues Mrs Jean Roberts a theisen fedydd Mrs Olwen Hughes i'w hanfon ymlaen i Sioe Llanelwedd.

Mrs Mair Hughes ddiolchodd i Mrs Beth Ann Williams a Miss Nia Rh. Humphreys, y gwestwraigedd.

GWIBDAITH MERCHED Y WAWR — Yn ystod y tymor cawsom noson ddifyr yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones yn dangos sleidiau i ni. Cytunodd Mrs Jones ddod gyda ni i sir Fôn ar ein gwibdaith, nos Fawrth, Mehefin 9, i ddangos manau diddorol i ni. Cychwynnir am 6 o'r gloch. Byddwn yn diweddu'r noson yng Ngwesty Glyn Lliffon, Marianglas. Gellir dewis rhwng Cyw lâr mewn basged am £1.50 neu Scampi £2. Enwau ac arian am y bwyd i Heulwen Jones, Sycharth, Bryn Moelyn neu Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel, erbyn dydd Sadwrn, Mai 30 fan bellach, os gwelwch yn dda.

DAU LUN O FRYNREFAIL

Dyma ddau lun o eiddo Gruffudd Pritchard, Glyn Afon. Yn y cyntaf ceir cwmni drama Brynrefail yn y flwyddyn 1928. Cwmni enwog a phoblogaidd yn y cylch. Fe gofia Mr Pritchard yn arbennig eu perfformiad o'r dramâu 'Ar y Groesffordd' a 'Beddau'r Proffwydi'.

Dyma'r actorion yn y llun —

Rhes ôl: (o'r chwith) John Roberts, Cyril (Llwyn Celyn), Tommy Williams, Edward Thomas, Owen Williams, Dafydd Owen.

Rhes flaen: William Williams, Mrs Thomas, (Bryn Madoc), John Thomas Roberts, Mary Parry (Ty'n Twll), Owen Jones (Pen Clegir).



ENWAU'R CHWARELWYR

Diolch i Mrs Beti Wyn Davies, 82 Pentre Helen, Deiniolen am gysylltu â ni, gan nodi enwau'r chwarelwyr yn y llun a ymddangosodd yn yr Eco diwethaf.

Tynnwyd y llun wrth ochr 'Cwt Wings Dyffryn', Chwarel Dinorwig, tua 1946-47.

Yn Eistedd: Howel Roberts (Trysgol); **Sefyll:** Tomos Morris (Pont Sardis); **Yn Eistedd:** William Parry (Tad Mrs Davies); Wil Dafydd (Bethel); Evan Pierce Jones (Deiniolen); **Sefyll:** Hugh Thomas (Penisarwaun); James Owen, (Bigil) ac Alun Thomas.

BRYNREFAIL

SEFYDLIAD Y MERCHED — Yng nghyfarfod y mis yn Nhŷ Glas, cafwyd arddangosfa o waith nyddu a gwehyddu gan Judy Walton ac Elizabeth Lechner. Paratowyd y te gan Pat Jones a Betty Owen. Rhoddwyd anrheg y mis gan Sheila Williams ac fe'i enillwyd gan Jinnie Williams.

CLWB MAMAU — Eto yn Nhŷ Glas ar Ebrill 11, cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Pat Jones, Cae Coch a ddangosodd y gelfyddyd Macramé, gyda hyfforddiant i'r aelodau a fentrodd yn y gwaith. Rhoddwyd y te gan Helen Roberts a Dorothy Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Moira Ellis ac fe'i enillwyd gan Liz Thomas.

CLWB PEDWARUGAIN — Enillwyd mis Mawrth: Mawrth 6: 1. Pete Wellsby, 2. Jenny Roberts, 3. Carl Hasson. Mawrth 13: 1. Meurig Jones, 2. Ann Jones, 3. Emyr Jones. Mawrth 20: 1. Sue Jones, 2. John Williams, 3. Norma Green. Mawrth 27: 1. Elwyn Jones, 2. Derek Davies, 3. Margaret Jones.

LLONGYFARCHIADAU I — Gari Jones, Cae Coch ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar Mawrth 31, a hefyd ar ei lwyddiant yng Ngholeg Technegol Gwynedd, lle penodwyd ef y disgybl mwyaf addawol yn y grefft o blastro dan nawdd y CITB. Derbyniodd wobwr o docyn llyfr.

YR URDD — Nos Lun, Ebrill 6 yng nghanolfan Gymuned Cwm y Glo cynhaliwyd noson goffi'r gangen leol o'r Urdd. Cafwyd hwyl a sbri yn yfed coffi a phrynu a gwerthu ar y stondinau amrywiol. Dyma restr enillwyr y raffl ar y noson: 1. Basged Ffrwythau: Mr Dafydd Price, Cwm y Glo a roddwyd gan Mrs Susan Jones.

Yn yr ail lun o chwarelwyr yn y flwyddyn 1921, fe hoffai Mr Pritchard gael mwy o wybodaeth am yr enwau. Tra yn dyfalu ar hyn, mae Mr Pritchard hefyd yn awyddus i gael ystyr enw'r tŷ yng Nghlwt y Bont — 'MAES TOSO'? — Atebion i'r Golygyddion os gwelwch yn dda.



J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: Y FELINHELI 670124

Agor

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Ffiniau'r Gorffennol

Cefais fenthyg llyfr gwerthfawr ar goginio gan Mrs Ellis, Treflan, Llanrug a chaniatâd i lunio erthygl i Eco'r Wyddfa ohono. Diolch i Mrs Ellis.

Teitl y llyfr ydyw 'Hen Gyfarwyddiadau Cymreig'. Casglwyd gan aelodau Undeb Sefydliad y Merched Arfon gyda Chymorth Undeb Cymru. Y mae un rhan ohono yn Saesneg.

'Rwy'n siŵr yr hoffwch gael rhai o'r hen gyfarwyddiadau. Heb os, yr oeddynt yn faethlon, a phwy a wŷr na ddaw'r bwydydd hyn yn boblogaidd eto yng Nghymru.

BRYWAS

Bara Ceirch, Potes Biff neu doddion (dripping), Bara Gwyn.

Craser y bara ceirch o flaen tân da nes y bydd yn frown golau, ei falu gyda holbren pwrpasol yn fân, fân. Rhoi llond gwaelod powlen o'r bara ceirch, ychydig bupur a halen, yna haen o fara gwyn, yna gorffen llenwi'r llestr gyda'r gweddill o'r bara ceirch. Tywallt y potes yn ferwedig arno, bydd hwnnw wedi ei flasu, neu os toddion fydd i'w roi - tameidiau hael o hwnnw, a thwyallt dŵr berwedig arno. Plât ar ei wyneb nes bydd wedi ei fwydo, a'i flasu drwodd. Borefwyd amaethwyr Eifionydd yn y gaeaf oedd hwn.

CAWL SIR BENFRO

Dyma ginio hanner dydd fferm.

Dau i dri chwart o ddŵr, dau bwys o biff hallt, a chig moch, ychydig foron, maip, bresych, wniwns. Ychydig flawd ceirch.

Dechreuir paratoi'r cinio tua naw o'r gloch y bore, drwy dorri darn o'r biff hallt a'r cig moch sy'n hongian o ddistiau mawrion yr hen gegin (tua dau bwys o gig i gyd), a'i roddi mewn dau neu dri chwart o ddŵr yn y crochan i ferwi yn araf am ddwy awr. Wedyn rhodder moron, maip a bresych wedi eu malu yn fân, yn y crochan. Am hanner awr wedi un ar ddeg cymerer lletwad (ladle) i godi'r cig ar ddysgl, a chadwer yn gynnes o flaen y tân, ac yna ychwaneg brawd ceirch i'r cawl i'w dewychu. Ychydig cyn amser rhannu'r cawl, rhodder ynddo gennin wedi eu malu'n fân.

Bwyteir y cael o bowlen, gyda bara gwenith cartref. Wedyn ceir y cig gyda thatws yn ail gws.

CRWMPG SURGEIRCH

Chwe owns brawd ceirch mân, un pwys brawd gwyn, hanner owns burum, llefrith claeaf i'w gymysgu.

Dodwch y brawdau mewn dysgl. Rhoddwch y burum mewn cwpan gydag ychydig o siwgr a llefrith cynnes. Ychwanegwch at y brawdau a chymysgwch yn denau fel crempog. Craswch ar y radell.

Maent i'w bwyta yn gynnes gyda chyflawnder o fenyn a syrur melyn.

PICWS MALI

Bara ceirch, llaeth poeth (gaeaf), llaeth oer (haf).

Malu'r bara ceirch yn fân, rhoi'r llaeth am ei ben a'i adael i fwydo am ychydig amser.

PASTAI LLAETH

Craser tafell o fara, a thorner i bowlan, yna tywallter llaeth enwyn newydd ei gorddi drosto. Gadawer i fwydo am ychydig cyn ei fwyta.

POSEL TRIAGL

Rhodder llond llwy o driagl mewn powlen, a llaeth enwyn poeth arno, yfer wrth fynd i'r gwely tra y mae yn boeth. Mae'n dda at glirio anwyd.

18

LLYMRU

Pwys o flawd ceirch, tri pheint o ddŵr, un peint o laeth enwyn.

Rhodder y brawd cerich a'r dŵr a'r llaeth i sefyll am dri diwrnod, yna ei hidlo, a berwi y gwlyb am awr. Bwyta efo llefrith.

PONGCO

Dwy lond cwpan de o flawd, hanner llond llwy de o soda pobi, digon o lefrith i'w wneud yn gyteu (batter), halen a phupur i flasu.

Wedi ffrio padellaid o ham neu facwn, gadael y saim yn ferwedig yn y badell. Tywallt y cymysgedd i'r saim a'i ffrio nes yn frown. Wedyn troi un hanner ar y llall. Bwyteir gyda chig a thatws. Gwelais rai pobl yn rhoi ychydig o siwgr yn y pongco ond ni hoffais hynny erioed pan yn blentyn.

SUCAN

Dwy lond cwpan goffi o flawd ceirch mân cartref; peint a hanner o ddŵr oer.

Rhoi'r dŵr ar ben y brawd a'i adael yn wlych am dridiau, neu nes y bydd wedi suro ychydig, ei hidlo drwy hidlan fân neu liain. Rhoi hanner peint o ddŵr i ferwi, cymeryd dwy lond cwpan de o'r gwlybur a'i roi am ben y dŵr berwedig, ei droi â llwy bren nes y bydd wedi tewychu, gofalu ei droi nes yn barod, - tua 10 munud, os yn rhy dew i fwydo'r bara yn y bowlen, rhoi ychwaneg o ddŵr i'w deneuo. Malu bara yn fân a'r llaw, tywallt y sucen arno, ei flasu a siwgr a sinsir yn ôl y chwaeth.

Bwyd ysgafn dymunol i glaf yw hwn.

UWD RHYNION MAWR

Hanner pwys o Rhynion, llond llwy de o halen, chwart o ddŵr neu lefrith.

Dod a'r dŵr neu lefrith i ferw; yna rhoi'r rhyinion a'r halen ynddo a'i ferwi am ddwy awr.

Bwyta gyda thriagl neu lefrith.

SLAPAN

Pwys o flawd, hanner pwys o siwgr, hanner pwys o fenyn, chwarter pwys o gyrains, pedwar ŵy.

Ei chrasu ar y radell fel crasu crempog. I'w bwyta yn boeth wedi ei thorri drwy'r canol a digon o fenyn arni.

TEISEN GRIN

Pwys o flawd, dwy owns o siwgr, dwy owns o fenyn, llond llwy de o soda pobi, llaeth enwyn i'w chymysgu.

Ei chrasu ar y radell, rhoi digon o ymenyn arni. I'w bwyta yn boeth.

MEDDYGLYN

Y gorau yw ffigisgwriaeth - 'Hearty Laugh' a chwart o laeth.

Pwy?



DRAENOG

A fyddai un o'r tim golygyddol a achubodd gath o ben polyn teligraff cystal â sgwennu erthygl ar ddringo i ni os gwelwch yn dda?

TAN-Y-COED

LLONGYFARCHIADAU - I'r plant a ganlyn o Ysgol Sul Tan-y-Coed, ar eu llwyddiant yn arholiadau'r Ysgol Sul: Arholiad Ysgrifenedig dan 14 oed: Vaughan Llewelyn Hughes, 79 o farciau, Glenda Roberts 51. Gwobrwyir y ddau yn y Gymanfa ym mhontnewydd, Mai 3.

Arholiad Sirol dan 9 oed: Anwen Parry 90; Amlyn Llwyd Evans 20; Wyn Parry 87; Ffion Williams 86; Rebeca Hughes 85; Lona P Roberts 81;

Dan 11 oed Bethan Lewis Parry 77; Manon Llwyd Evans 76.

Gwobrwyir y rhain yng nghyfarfod Henaduriaeth Arfon yng Nghapel Jerusalem, Bethesda, Mai 16.

Llongyfarchiadau hefyd i grŵp y ddawns greadigol o'r Ysgol Gynradd a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor. Y mae Bethan L. Parry a Manon Ll. Evans yn aelodau o'r grŵp yma. Byddant yn cystadlu ymhellach yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghastell Newydd Emlyn. Pob hwyl iddynt ac i blant eraill y cylch fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod.

Bu Amlyn Llwyd Evans, Carwyn yn lwyddiannus yn Arholiad Chwarae'r Piano - Gradd Ia'i chwaer Manon yn llwyddiannus yn Arholiad Ysgrifenedig Gradd 4, y ddwy arholiad o dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol. Athrawes y ddau yw Miss Carys Williams, Summer Hill, Llanberis - ein llongyfarchiadau iddynt hwythau.

Yn Ras Draws Gwlad Ysgol Brynrefail daeth Linda Wynne Jones, Pant Clyd, a Margaret Roberts, Tainewyddion yn gydradd drydydd.

Llongyfarchiadau i Dafydd Gregory Hughes, Ysgol Brynrefail ac o Rallt Deg, ar gael ei ddewis yn Gyfarwyddwr Sain yn adran cerdd yr Opera Pishyn Tair a berfformiwyd yn Theatr Gwynedd yr wythnos hon ac sydd ar daith bythefnos trwy Gymru. Y mae Dafydd hefyd yn un o'r Cast, sef y Cwnstabl.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mr a Mrs Mark Stokes (Bysiau Arfon) ddiolch i'w perthnasau a'u cyfeillion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu mab Siôn Arfon. Diolch yn fawr i bawb ar ran Siôn.

Hefyd dymuna Mr a Mrs Arthur Vaughan Jones, 6 Maesygerddi ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Arian - Diolch yn fawr.

Un arall eisiau datgan diolch yw Mrs Dorothy Allen, merch y ddiweddar Mrs M.E. Shilton, Tan-y-Coed Cottage. Y mae'n diolch am y cydymdeimlad ddangoswyd

tuag ati hi a'r teulu yn eu profedigaeth - colli mam annwyl, ac am yr arian anfonwyd tuag at Adran Llygaid Ysbyty'r Bwth, Caernarfon. Derbyniwyd £50.

Eto, dymuniad Miss Anne Jones, Pant Clyd yw diolch o galon i'w chymdogion, teulu a ffrindiau am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati pan gafodd ei chymryd i'r ysbyty mor sydyn dros wyliau'r Pasg.

Erbyn hyn, mae Anne adre ar ôl cael triniaeth llawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Croeso adre Anne ac iachad llwyr a buan i chwi.

DYWEDDIAD - Llongyfarchiadau ar eu dywedd i Dylan Wyn Jones, 3 Tai Tan-y-Coed, Llanrug a Sharon Wyn Roberts, 10 Ffordd Llanberis, Caernarfon. Pob bendith iddynt i'r dyfodol.

CHWIORYDD - Mawrth 27, cyfarfu chwiorydd Tan-y-Coed i fwynhau cwmniaeth dda a phaned o de, a noson o adloniant. Cyfeillion o Gapel Mawr Llanrug oedd yn diddori â rhaglen ddifyr o ganu, adrodd ac actio, y canu cynulleidfaol dan arweiniad Mrs Jones, Ogwen, a Mrs Humphreys, Las Ynys wrth y piano, a'r gweinidog, y Parch W.O. Roberts yn llywyddu. Rhoddwyd y te gan Mrs Beryl Mai Jones, Mrs Ceinwen Roberts a Mrs Katie Pritchard. Diolchwyr i bawb gan Mrs Nancy Roberts.

DERBYN - Nos Sul, Ebrill 5 derbyniwyd Mr a Mrs Eilir Williams, 3 Tai Minffordd yn gyflawn aelodau o Eglwys Tan-y-Coed. Croeso i Mr a Mrs Williams i'n plith.

BEDYDD - Pnawn Sul, Ebrill 19 bedyddiwyd merch fach Mr a Mrs Eilir Williams - Bethan Eilir - gan y gweinidog, y Parch W.O. Roberts, a daeth perthnasau, a chyfeillion ynghyd i ddathlu'r amgylchiad hapus. Croeso i Bethan i fysg plant yr eglwys.

FFARWELIO - Dychwelodd Mrs Rebeca Jones, Snowon Temperance, Pentre Castell, Llanberis adre ar ôl cyfnod o fyw yn ein plith. Tra'n aros ym Mryn Marian bu Mrs Jones yn ffyddlon yng ngwasanaethau Eglwys Tan-y-Coed. Chwith ei cholli o'n plith. Pob dymuniad da iddi yn ôl yn ei chartref ym Mhentref Castell.

CYDYMDEIMLWN - Fel ardal â Miss Enid Roberts a Mr Lewis J. Roberts, Minafon a Mrs Ceinwen Roberts, Ael-y-Bryn yn eu profedigaeth o golli eu chwaer yng nghyfraith, Mrs Gwennie Roberts, Caernarfon, priod y ddiweddar Mr Alun Roberts.

GENI - Llongyfarchiadau i Mr a Mrs William Williams, Prysgol ar enedigaeth mab, brawd i Jonathan Prys a Richard.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Dyddiadur y Mis

MAI

- 1: BETHEL. Pwyllgor y Carnifal am 7.30.
- 2: WAUNFAWR. Plaid Cymru – Noson Galan Mai ym Mron Eryri, Llanberis.
- 4: YR ARDAL. Gŵyl Lafur Gydwladol ym Mangor o 12.30 ymlaen.
- 6: YR ARDAL. Gŵyl Ddrama Ieuenctid yn Theatr Seilo, Caernarfon am 7.00.
- 7: LLANRUG. Noson Goffi Cymdeithas Chwiorydd Capel Mawr am 7.00. WAUNFAWR. Sefydliad y Merched. CWM-Y-GLO Clwb Pobl y Cwm.
- 8: PENISARWAUN. Eisteddfod. WAUNFAWR. Ffair Wanwyn Clwb Gwryfai yn Neuadd yr Eglwys. LLANBERIS. Te yr Henoed.
- 11: PENISARWAUN. Noson Goffi dan nawdd Undeb y Mamau er budd

Cymorth Cristnogol. LLANBERIS. Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

14: LLANRUG. Clwb Blodau'r Grug. CWM-Y-GLO. Clwb Pobl y Cwm.

15: BETHEL. Pwyllgor Plaid Cymru yn y Neuadd am 7.30. LLANBERIS. Disgo Dewis Brenhines 1981 yn y Ganolfan am 7.30. Y noson dan nawdd Pwyllgor y Carnifal.

16: LLANRUG. Pwyllgor Merched y Seindorf yn cynnal Ffair Sborion yn Feed My Lambs, Caernarfon.

18: LLANBERIS. Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

19: BETHEL. Taith Ddirgel Sefydliad y Merched. PENISARWAUN. Clwb yr Heulwen.

20: CWM-Y-GLO. Merched y Wawr yn cynnal Noson Goffi ac Arwerthiant. Yr elw er budd Gwibdaith y Pensiynwyr.

21: CWM-Y-GLO. Clwb Pobl y Cwm.

22: BETHEL. Helfa Drysor dan nawdd Cangen Plaid Cymru. LLANBERIS. Te yr Henoed.

23: LLANBERIS. Cyfarfod Agor Amgueddfa T. Rowland Hughes, Angorfa, yng Nghapel Gorffwysfa am 2 o'r gloch. Dadorchuddio'r Gofeb yn Angorfa am 3 o'r gloch.

27-30: Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nyffryn Teifi.

28: LLANBERIS. Sefydliad y Merched. WAUNFAWR. Merched y Wawr. CWM-Y-GLO. Clwb Pobl y Cwm.

LLANBERIS

(Parhad)

YSGOL DOLBADARN
LLWYDDIANT ADRAN YR URDD – Bu Adran yr Urdd yn hynod lwyddiannus yn Eisteddfod Sir Eryri ym Mangor ar Fawrth 28. Enillodd Lisa J. Rudkin y drydedd wobwr ar Unawd Cerdd, a daeth y canlynol yn gyntaf: Parti Unsain, Parti Cerdd Dant a Chôr yr Adran. Bydd y ddau barti a'r côr yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghastell Newydd Emlyn yn ystod y Sulgwyn. Pob llwyddiant a fo iddynt. Yng nghysgod y llwyddiant ym Mangor, daeth Cwpan y Sir (Cwpan Teulu Pantyfedwen) i Ysgol Dolbadarn am y tro cyntaf erioed.

CYNGERDD ADRAN Y BABANOD – Yn ddiweddar cynhaliwyd tair noson goffi a chyngerdd gan Blant Adran y Babanod yn yr Ysgol, er budd Cronfa Llanberis o'r Ymgyrch i Ymchwil i Glefyd yr Iau Ymysg Plant. Swynwyd y gynulleidfa ar y dair noson gan naturioldeb y plant bach tra'n canu, adrodd ac atio. Gwnaed elw sylweddol i'r Ymgyrch sef y swm o £317. Diolch i'r plant am eu gwaith, ac i'r athrawon am eu dysgu ac hefyd am weithio'n galed yn ystod y dair

noson. Hefyd, i Staff y Gegin am ddarparu'r lluniaeth, a hynny yn hollol wirfoddol, i'r gofawr, am ddarparu'r Ysgol, ac i bawb a gyfrannodd mor hael tuag at yr achos, ac am y gefnogaeth frwd a gafwyd.

Y TIMAU PÊL-DROED – Colli fu hanes y ddau dîm pêl-droed tra'n chwarae yn erbyn Ysgol y Gelli, Caernarfon yr wythnos ddiwethaf. Ni ellir bod yn fuddugol bob amser fechgyn.

CWIS DIOGELWCH Y Ffordd Fawr – Mewn cwis yn erbyn Ysgol Llanllechid bu tîm yr Ysgol yn llwyddiannus, ond nid felly yn yr ail rownd yn erbyn Ysgol y Garnedd, Bangor. Llongyfarchiadau i'r tîm ac hefyd i Mr Selwyn Pritchard, yr hyfforddwr.

BETH AM DRIP GWERTH CHWEIL? – Bydd bws yn jyned i Gastell Newydd Emlyn ar ddydd Mercher, Mai 27, sef i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mae ychydig seddau ar ôl heb eu gwerthu, felly os yr hoffech fyned o Lanberis i'r De am dro, cysylltwch â'r Prifathro (Llanberis 711). Pris y daith yw £3.75.



45 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: PADARN 278

Pryd gorau'r fro.

WYNEBU'R GWIR

“Tasa hi'n dwad yn ryfal niwcliar mi f'aswn i a'r wraig a'r plant yn ei g'f'uo hi am y twneli yn y Chwaral.” Dyna ran o sgwrs a glywyd yn y Bull yn Neiniolen yn ddiweddar. Mewn gwirionedd, ni fuasai noddfa ddiogel i'r siaradwr yn nhwneli Dinorwig. Yma, mae aelod o'r Ymgyrch Ddiarfori Niwcliar, (YDN (CND) yn esbonio pam.

Mae'r llywodraeth yn cyfaddef y câi 25,000,000 person eu lladd yng ngwledydd Prydain mewn rhyfel niwcliar. Cydnabyddwyd yn yr ymarfer sifil diweddar, 'Operation Square Leg', bod yr ardal hon yn darged rhyfel blaenllaw; ni fuasai fawr neb ohonom yn dod trwy ymosodiad niwcliar.

Yn naturiol mae'n well gennym beidio meddwl am ryfel niwcliar. Dagrau pethau yw bod ein llywodraethwyr yn meddwl a pharatoi am ryfel. Geiriau sy'n llithro'n frawychus o hawdd dros wefusau Reagan, Thatcher a'u dilynwyr y dyddiau hyn yw 'first strike, acceptable retaliation' ac 'European theatre warfare'. Mae arwyddocâd y termau hyn yn hyll o syml. Bellach mae'n amlwg nad atal rhyfel yw'r nod; yn hytrach, gwerir miloedd o filiynau o bunnoedd ar fathau newydd o arfau. (Cruise a Trident ac yn y blaen), a fydd yn galluogi ein meistri i ymosod yn gyntaf a dinistrio rhan helaeth o'r stoc o arfau niwcliar sydd yn yr Undeb Sofietaidd. Gan na ddifethir holl arfau'r Dwyrain rhaglweir dial a fydd yn lladd 25 miliwn ohonom. I'n meistri mae'r nifer yma'n dderbyniol ('acceptable retaliation'). Fe wneir hyn i gyd, yn ôl y llywodraeth, er ein lles ni, – er mwyn diogelu ein rhyddid!

Bwriad ein llywodraethwyr yr 'mochel yn eu tyllau a'n twneli o dan y ddaear yn ystod cyflafan niwcliar gan ddychwelyd wedyn i'r wyneb i reoli unrhyw drueiniaid fydd ar ôl. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth am drefniadau rhyfel niwcliar yn gyfrinachol. Gwyddom bod gan rhai pwysigion le wedi ei fwcio yn y gwarchodfannau niwcliar. Er enghraifft, mae gan Nicholas Edwards, Ysgrifennydd Cymru, liffet breifat o'i swyddfa i'r warchodfan niwcliar dan ddaear y Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd. Ei fwriad yw rheoli'r wlad oddi yno drwy anfon gorchmynion i swyddogion dethol led-led Cymru; er enghraifft, i Gyfarwyddwr Addysg Gwynedd a fydd yn gyfrifol am rannu'r bwyd prin rhwyng unrhyw rai fydd yn medru bwyta. Cred sawl un bod rhai o dwneli Dinorwig wedi eu clustnodi fel mannau gwarchod rhai o'r bobl ddethol hyn, ond mae'n amhosibl cael cadarnhad mai dyma yw pwrpas y twneli sbâr yng nghrombil yr Elidir. Un peth sy'n bendant, nid oes lle i ni'r bobl gyffredin yno. Yn ôl cyfarwyddwyd y llywodraeth dylem wyngalchu'r ffenestri a gwarchod yn y sleer, twll dan grisiau neu dan y bwrdd. Nonsens yw'r awgrym bod gobaith i ni ddod trwyddi fel hyn.

Yr unig obaith i ni yw sicrhau na ddigwydd ymosodiad niwcliar drwy berswadio'r llywodraeth i gael madael ar eu

harfau miwcliar bygythiol. Dyna yw polisi gwledydd gwâr fel Swedden a Canada. Mae mwy a mwy o bobl ym mhob gwlad yn galw ar i'w llywodraeth ymwrthod ag arfau niwcliar. Wrth i bobl yng ngwledydd Prydain gael gafael ar y ffeithiau bu cynnydd sylweddol yn rhengoedd y mudiadau diarfogi. Calonogol iawn fu'r twf yng ngobeithion ac aelodaeth yr Ymgyrch Diarfogi Niwcliar (CND; yng Ngwynedd dros y misoedd diwethaf.

Mewn ymgais i'n hatal rhag gwybod y ffeithiau am ryfel niwcliar rhwystrodd y llywodraeth y BBC rhag darlledu'r ffilm 'The War Game'. **Er mwyn unioni'r cam hwn mae'r ffilm hon, sy'n esbonio'r peryglon niwcliar, yn cael ei dangos mewn trefi a phentrefi ledled Gwynedd yn ystod mis Mai. Trefnwyd hyn gan Ymgyrch Diarfogi Niwcliar Gwynedd; bydd y ffilm i'w gweld yn yr ardal hon am wyth o'r gloch ar nos Fercher y chweched o Fai mewn cyfarfod cyhoeddus ar ddiafogi niwcliar yn yr Ysgol Gynradd yn Llanrug.** Yn ogystal â'r ffilm fe fydd panel o siaradwyr yn cynnwys y Doctor Eirwen Gwynn, Hefin Jones, Pant Mwyn, a Richard Barker (Cadeirydd YDN Gwynedd) yno i ateb cwestiynau ac esbonio'r hyn y medrwn ei wneud i atal ein difodiad. Gall y sawl na fedr ddod i'r cyfarfod ymuno â'r Ymgyrch drwy anfon eu henw a'u cyfeiriad ynghyd â'r tâl aelodaeth (£2 i oedolyn ond £1 i'r di-gyflog, pensiynwr a myfyriwr a 50c i ddisgybl ysgol) i'r Ysgrifennydd Aelodaeth, 2 Top Sling, Tregarth, Bangor.

WYTHNOS HEDDWCH BANGOR EBRILL 27 – MAI 4

Mae cangen Gwynedd o'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwcliar yn cefnogi Wythnos Heddwch Bangor. Mae'n a rywbeth at ddant pawb yn y rhaglen hon o weithgareddau heddychol. Cyfranogwch, os gwelwch yn dda, a helpwch i wneud y digwyddiad yn llwyddiant.

Wrth gwrs, mae pedwar diwrnod o weithgareddau wedi digwydd cyn ymddangosiad yr Eco. Dyma'r rhaglen am weddill yr wythnos:

Dydd Gwener, Mai 1, 11.30 y bore ac ymlaen drwy'r dydd – Marchnad Heddwch a Theatr Stryd 'Concourse', Canolfan Wellfield.

Dydd Sadwrn, Mai 2, 12.00 – Picnic Heddwch: Mynydd Bangor. Dewch â'r teulu!

Dydd Llun, Mai 4, 12.00 – Gorymdaith a Rali – fel rhan o weithgareddau Calan Mai sydd wedi'u trefnu gan Gynghorau Undebau Llafur Gwynedd a Chlwyd.

CHWARAEON

CLWB CODI PWYSAU PŴER – DINORWIG

gan Len Jones, Glasgoed, Penisa'rwaun.

Len Jones, Glasgoed, Penisa'rwaun a ddechreuodd y Clwb yn 1980, a hynny ar ôl mentro unwaith o'r blaen rhwng 1976 a 1977. Enw'r clwb yw Clwb Codi Pwysau Pŵer Dinorwig. Mae'n wahanol i'r un yn Llanrug (sef Pwysau Olympaidd).

Y gwahaniaeth yw fod dwy godiad yn y Pwysau Olympaidd – *snatch* a *clean and jerk*. Yn y Pwysau Pŵer mae tair codiad *squat* – plygu a phwysau ar eich cefn; *bench press* – gorwedd ar fafn a chodi pwysau; a'r *dead lift* – codi pwysau o'r llawr nes bo'r corff yn syth.

Wedi ymarfer caled a chyson yn hen ysgol Dinorwig am flwyddyn, daeth llwyddiant cyntaf y Clwb ym mis Chwefror eleni ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru yng Nghaergybi. Daeth y canlynol yn ôl â buddugoliaeth: Bryn Jones (cyntaf adran 52k iau); Martin

Wood (cyntaf adran 60k iau); Carwyn Thomas (ail adran 60k iau); Carwyn Thomas (cyntaf adran 67½k iau); Len Jones (ail adran 67½k hyn).


Mae'r Clwb yn awr yn barod am Bencampwriaeth Cymru a gynhelir fis Gorffennaf eleni.




Len Jones yn codi 413 pwys yn y 'Deadlift'.



Cemlyn Thomas yn codi 255 pwys yn y 'Squat'.



Carwyn Thomas yn codi 190 pwys yn y 'Squat'.



Martin Wood yn codi 347 pwys yn y 'Deadlift'.

CODI PWYSAU

Llwyddiant arall i Glwb Codi Pwysau Llanrug. Mae dau aelod – Ieuan Owen ac Eyrn Williams wedi eu dewis i gynrychioli Cymru yn Killarney yn yr Wyl Geltaidd. Pob lwc i'r ddau yn yr Ynys Werdd.


SNWCER

'Roedd gêm derfynol parau'r ail Adran rhwng timau o'r fro. Llongyfarchiadau i Ken Griffith a Gwynfor Thomas o Lanrug ar ennill yn erbyn Keith Williams a Harri Jones o Fethel. Aeth tîm Glas Bethel, i Rownd Derfynol Cwpan y Gynghrair hefyd, ond yn anffodus, colli fu eu hanes yn erbyn tîm Arfon NALGO.

GEMAU GIAMOCS LLANBERIS Nos Iau, Gorffennaf 16, 1981

Y llynedd 4 tîm oedd yn y gystadleuaeth, sef Llanberis, Deiniolen, Penisa'rwaun a Chwm-y-Glo. Estynnir gwahoddiad eleni eto i'r 4 tîm uchod. Os ydych am dderbyn y gwahoddiad cysylltwch ag Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Stryd Warden, Llanberis (Rhif ffôn – Llanberis 515) cyn Mai 16, 1981.

Y mae lle hefyd i ddau dîm arall, o ardal yr Eco, yn y gystadleuaeth. Os oes diddordeb cysylltwch ag Iwan Lloyd Williams cyn Mai 16, 1981. Y ddau gais cyntaf i law fydd yn cael eu derbyn.



Bryn Jones yn codi 115 pwys ar y 'Bench Press' ac aelodau a chefnogwyr yn gwyllo.

PÊL-DROED

Mae bron yn ben-llanw'r tymor pêl-droed a thri tîm yr ardal yn brwydro i'r diwedd – er am resymau gwahanol. Mae Bethel ar un llaw yn brwydro rhag diwedd ar waelod y Gynghrair yn eu tymor cyntaf; a Llanberis a Llanrug ar y llaw arall, yn ymladd fel arfer am y bencampwriaeth ac am y cwpanau. Mae gêm olaf y tymor yn argoeli'n dda: Llanberis yn erbyn Llanrug, a'r ddau dîm angen dau bwynt i gael siawns o ennill y bencampwriaeth. Un gêm sydd ar ôl i Fethel, a rhaid ei hennill yn erbyn Mt. Rangers, i gadw rhag disgyn i waelod y Gynghrair.

BETHEL

Gweddol fu ymdrechion Bethel y mis hwn eto; er iddynt ffrwyno peiriant sgorio Llanberis a cholli o ddim ond 3 gôl; aeth yr amddiffynfa yn racs yn erbyn Hiracl a Chaernarfon, gan goli o 6 gôl ac o 5 gôl. Sgoriwyd gôl yr un yn y ddwy gêm gan Wyn Evans i Fethel. Daeth eu gêm fwyaf cynhyrfus yn erbyn Bethesda. Rhuthrodd Bethel ar y blaen o 3-0 yn y deng munud cyntaf, gyda goliau gan Reg Roberts, John Pritchard a Brian O'Shaughnessy ond wedyn gadawsant i Fethesda ymladd yn ôl i wneud gêm gyfartal ohoni.

LLANBERIS

Mis llwyddiannus iawn, gan ennill pob un o'i gemau. Mae'r tîm bellach â siawns am y bencampwriaeth ac am y tri chwpan. Maent wedi bod yn sgorio'n rheolaidd yn eu gemau diwethaf, a hynny'n bwysig iawn iddynt oherwydd gall y bencampwriaeth ddibynnu'n gyfan gwbl ar wahaniaeth goliau. Curo Mt. Rangers 1-0 a Bethel 3-0 ddechrau'r mis, ac yna newid gêm a maeddu Caernarfon 5-2, Hiracl 7-1 a Harlech 4-1 erbyn diwedd y mis. Rhwng y gemau cyngharir hyn, aeth y tîm o nerth i nerth yn y cwpanau hefyd, gan guro'r Felinheli 1-0, yng Nghwpan Penrhyn, a chyrraedd y Rownd Derfynol yn yr un cwpan drwy guro Llanrug 2-1. Maent hefyd wedi cyrraedd Rownd Derfynol Cwpan Alves ar ôl curo Pwllheli o 3-1 ar ôl amser ychwanegol, ac y maent yn Rownd Gyn-derfynol Cwpan Moorings ar ôl curo'r Felinheli o 1-0.

Yr hyn sy'n galonogol iddynt yw'r ffaith fod llawer o'u chwaraewyr yn sgorio, yn hytrach na gorfod dibynnu ar un neu ddau o flaenwyr yn unig. Dyma amrywiaeth sgorwyr y mis hwn: Iwan Evans (7), Ray Harding (4), Maldwyn Jones (4), Geraint Rowlands (3), Selwyn Allsup (2), Gareth Jones (2), Keith Davies (1), a Gwilym Williams (1). Mae cefnwyr a chwaraewyr canol y cae yn y rhestr

hon, ac os deil y tîm i chwarae fel hyn hyd weddill y tymor, bydd llond eu hafflau o dlysau cyn diwedd mis Mai.

TÎM IEUENCTID

Llongyfarchiadau i Iwan Williams, rheolwr tîm ieuenctid Llanberis, a ddewiswyd yn rheolwr tîm ieuenctid Cynghrair Arfon. Daeth y Gynghrair yn gyntaf mewn cystadleuaeth i gynghreiriau ieuenctid Gogledd Cymru ym Mangor yn ddiweddar. Mae tîm Llanberis hefyd bron wedi ennill Pencampwriaeth Arfon, a'r mis hwn aethant gam yn nes i ennill Cwpan Ieuenctid y Gynghrair ar ôl curo Harlech o 6-2 yn yr ail-chwarae.

LLANRUG

Bu bron i holl obeithion Llanrug am y bencampwriaeth gael eu chwalu'n deilchion y mis hwn ar ôl wythnos drychinebus yn hanes y tîm. Er mai 5 pwynt yn unig a gollwyd drwy'r tymor hyd ddechrau'r mis, collwyd 5 arall o fewn 5 diwrnod, gan chwarae gêm gyfartal yng Nghaernarfon, colli ym Mangor mewn niwl trwchus, a cholli wedyn i Bwllheli. I rwbio halen i'r briw, ddeuddydd yn ddiweddarach cawsant eu cicio allan o Gwpan Penrhyn gan Lanberis. Ond erbyn diwedd y mis, daeth dwy fuddugoliaeth dda yn erbyn Porthmadog 3-0 a Mt. Rangers 4-0, â hwy'n ôl i'r ras am y bencampwriaeth.

Mae'n bosibl i Bwllheli ddiweddu'r tymor ar 46 pwynt, ac mae'n bosibl i Lanrug neu Lanberis ddiweddu'r tymor ar 46 pwynt. Mae'r cwbl wedyn yn dibynnu ar wahaniaeth goliau; ac ar hyn o bryd, mae Llanrug 5 gôl yn well na'r ddau dîm arall; ond fel y dywedwyd eisoes, mae Llanrug a Llanberis eisiau chwarae ei gilydd yng ngêm olaf y tymor!

Erbyn i'r rhifyn hwn ddod o'r wasg, gall Llanrug fod yn ôl ar ben y Gynghrair, a gallant hefyd fod wedi cyrraedd Rownd Derfynol Cwpan Alves, dwy gêm sy'n cael eu chwarae'n ystod yr wythnos.

TABL Y GYNGHRAIR

	Ch	E	Cyf	Colli	O BI	Y.E.	Pt
Pwllheli	26	19	4	3	70	29	42
Llanrug	25	18	4	3	77	22	40
Llanberis	24	17	4	3	86	36	38